

Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys

Ymgynghoriad

Eich Gwasanaeth Tân ac Achub chi – amser iawn, lle iawn, sgiliau iawn

Adroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad
4ydd Hydref 2023

Wedi ei baratoi ar gyfer:-

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Wedi ei baratoi gan:-

Sarah Barnett, Ymgynghorydd Ymchwil Annibynnol

E: sarahbarnettresearch@outlook.com

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad a methodoleg	3
2.0	Crynodeb Gweithredol	6
2.1	Canfyddiadau'r arolwg ymgynghori.....	8
2.2	Prif themâu	12
3.0	Holiadur ymgynghori.....	18
3.1	Sampl	18
3.2	Canfyddiadau manwl	23
4.0	Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned a Grwpiau Ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	48
4.1	Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned.....	48
4.2	Grwpiau Ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	52
5.0	Gweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	55
6.0	Gohebiaeth arall/cyfryngau cymdeithasol.....	60
6.1	Gohebiaeth	60
6.2	Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.....	61
6.3	Ymatebion Ffurfiol.....	62

1.0 Cyflwyniad a methodoleg

Fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, gweinyddodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu adborth gan y rhai sy'n byw, gweithio a theithio yn y rhanbarth ynghylch dyfodol sut maent yn darparu gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru. Datblygodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Strategaeth Gyfathrebu a bu'n gweithio gyda'r Sefydliad Ymgynghori, corff cynghori annibynnol, nid er elw drwy gydol y cyfnod i sicrhau bod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ddarparu i'r safonau gofynnol ac i sicrhau arferion gorau.

Gwahoddodd y mandad ymgynghori'r rhai sy'n byw, gweithio a theithio yn y rhanbarth i rannu eu barn ar ba risgiau sydd fwyaf o bwys iddynt, pa feini prawf gwneud penderfyniadau sy'n bwysig iddynt a sut roeddent yn teimlo bod yr opsiynau a gyflwynir yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Er mwyn helpu i ddatblygu opsiynau ar gyfer y dyfodol, fel ymarfer cyn-ymgynghoriad, bu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio gyda staff a chyrrff cynrychioliadol, aelodau'r cyhoedd, cynrychiolwyr y cyngor, grwpiau bregus lleol ac aelodau o'u Hawdurdod Tân ac Achub i ddeall beth sy'n wirioneddol bwysig pe byddai ef neu hi, neu rywun y maent yn gofalu amdano neu'n ei gynrychioli, angen eu gwasanaethau mewn argyfwng.

Defnyddiwyd yr adborth o ymgysylltu cyn-ymgynghori, ynghyd â barn broffesiynol, modelu, a phroffilio risg, yn y cam arfarnu opsiynau i ddatblygu opsiynau dichonadwy ar gyfer dyfodol gwasanaethau brys ar draws Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ffurfiol rhwng 21 Gorffennaf a 30ain Medi 2023. Estynnwyd dyddiad cau gwreiddiol yr ymgynghoriad o 22ain medi i 30ain Medi yn dilyn adborth/ceisiadau gan randdeilliad a'r cyhoedd. Roedd yr arolwg ymgynghoriad ar gael ar-lein (drwy Hwb ymgynghoriad 'Your Voice') ac ar ffurf copi caled yn ôl yr angen gyda rhadbost i'w anfon nôl, yn ogystal â fersiynau hawdd eu darllen a dwyieithog. Mae'r dogfennau ymgynghori llawn wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn. (gweler Atodiad 1).

Cynhaliwyd cyfres o 17 o ddiwyddiadau Ymgynghori wyneb yn wyneb ac ar-lein ar draws yr ardal rhwng 15fed Awst a 14eg Medi gan roi cyfle i'r cyhoedd ddysgu mwy am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Brys a gofyn cwestiynau er mwyn cwblhau holiadur yr ymgynghoriad. Mynychodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nifer o ddiwyddiadau a sioeau cymunedol yn ystod y cyfnod ymgynghori i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, gyda manylion y digwyddiadau a fynychwyd yn nhabl 3.1.1. Trefnwyd a chyflwynwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda phobl â nodweddion gwarchoddedig gan Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod y cam mapio cychwynnol a'r cam cyn-ymgynghori a chaiff hwn ei ddiweddarau yn seiliedig ar adborth o'r ymgynghoriad.

Ymgynghorwyd ag aelodau o staff drwy raglen o ymweliadau gan uwch reolwyr a Phrif Swyddogion yn ein gorsafoedd tân; mewn seminarau a gynhaliwyd ar gyfer rheolwyr canol a rheolwyr goruchwyllo; a thrwy sesiynau briffio gyda'r gwylfeydd ar y gorsafoedd gan y swyddogion cymorth a rheolwyr canol. Defnyddiwyd dulliau cyfathrebu mewnol i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad ymhlith staff, gan gynnwys Diweddariad y Prif Swyddog yn y Crynodeb Wythnosol a gwybodaeth ar y fewnrwyd.

Ymgysylltwyd â chyrrff Cynrychiolwyr Staff drwy'r Cyd-Fforwm Ymgynghorol a chasglwyd Cwestiynau Cyffredin (FAQs) o ymweliadau â gorsafoedd. Cafodd y rhain eu datblygu a'u diweddarau drwy gydol y cyfnod ymgynghori a'u rhoi ar fewnrwyd y Gwasanaeth.

Cafodd datganiad i'r wasg yn lansio'r ymgynghoriad ei uwchlwytho i'r wefan, ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol a'i ddosbarthu i'r cyfryngau lleol. Rhoddwyd hysbysebion ynghylch yr Ymgynghoriad mewn papurau lleol gan gynnwys Rhyl Journal, Free Press a Pioneer. Roedd ymgyrchoedd digidol hefyd yn targedu'r cyhoeddiadau hyn ynghyd â'r Chronicle (ar-lein yn unig). Crëwyd hefyd graffeg, posteri, clipiau fideo a fideos ymgynghori llawn ddwyieithog a'u defnyddiwyd i hyrwyddo'r ymgynghoriad. Gweinyddwyd hefyd raglen helaeth o negeseuon cyfryngau cymdeithasol i lansio, cynnal ymwybyddiaeth a hyrwyddo digwyddiadau ymgysylltu, a threfnu targedu ardal ddaearyddol benodol lle'r oedd niferoedd ymateb yn isel. Darperir enghreifftiau o ddeunyddiau cyfathrebu fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad 2).

Cynhaliwyd dadansoddiad rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb a oedd â diddordeb neu a allai gael eu heffeithio yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Sefydlwyd cronfa ddata o randdeiliaid a chysylltiadau, ac anfonwyd e-bost dwyieithog gan Gadeirydd yr Awdurdod Tân at yr holl gysylltiadau ar ddiwrnod lansio'r ymgynghoriad. Roedd y gronfa ddata hon yn cynnwys aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol, Swyddogion Cyswllt Aelodau ar gyfer awdurdodau lleol, clercod cynghorau tref, aelodau o'r Fforwm Lleol Cymru Gydnerth, Uwch Swyddogion o sefydliadau partner, cysylltiadau gan y tri rheolwr partneriaeth a chysylltiadau gan y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. . Cafodd aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi gofyn am gael ymuno â'r gronfa ddata i gael gwybod am yr ymgynghoriad hefyd eu cynnwys. Anfonwyd e-bost arall ymlaen at y cysylltiadau i roi gwybod iddynt fod terfyn amser yr ymgynghoriad wedi'i ymestyn.

Dosbarthwyd copiâu caled o daflenni ymgynghori, llyfrynau a holiaduron yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Brys gan reolwyr y partneriaethau lleol mewn gwahanol leoliadau. Gadawyd taflenni hefyd ym mhob tŷ a gafodd Archwiliad Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae gwybodaeth ychwanegol am gyhoeddusrwydd yr ymgynghoriad, gan gynnwys data cyrhaeddiad targed wedi eu cynnwys fel atodiad i'r ddogfen hon. (Atodiad 3).

Trefnwyd cyfres o gyfarfodydd gyda llunwyr barn, gwleidyddion, awdurdodau lleol a busnesau, yn cynnwys gwahoddiadau i gyfarfodydd yn ogystal â chyfarfodydd gafodd eu trefnu mewn ymateb i geisiadau. Crynhoir y rhain yn adran 6.3.1 yn yr adroddiad hwn.

Cofnodwyd llythyrau, galwadau ffôn, negeseuon testun, e-byst a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymatebwyd iddynt drwy gydol y cyfnod ymgynghori, a chafodd cynlluniau eu hadolygu a gwnaed newidiadau yn ôl yr angen mewn ymateb i faterion/pryderon a godwyd.

Derbyniwyd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn ystod y cyfnod ymgynghori (gweler adran 6.2) a diweddarodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'r Cwestiynau Cyffredin (FAQs) ar dudalen ymgynghori eu gwefan yn rheolaidd trwy gydol y cyfnod ymgynghori.

Lle derbyniwyd deisebau, cydnabu Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu bod wedi'u derbyn (yn unol â'u Polisi Deisebau) a chynghorwyd y rhai a oedd yn cyflwyno deisebau, er y byddai deisebau'n cael eu hadolygu a'u cynnwys yn adborth yr ymgynghoriad, na ddylid eu hystyried yn ddewis amgen i holiadur yr

ymgyngoriad cyhoeddus, gan annog y rhai sy'n llofnodi i sicrhau eu bod yn llenwi holiadur yr ymgyngoriad cyhoeddus er mwyn cynnwys cofnodion ffurfiol o safbwynt pob unigolyn.

Yn ystod y cyfnod ymgyngori cyflwynodd Undeb y Brigadau Tân opsiynau amgen i'r Awdurdod Tân (mae'r rhain yn cael eu trafod yn adran 6.3.2). Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi darparu cyfleoedd i Undeb y Brigadau Tân gyflwyno'r opsiynau amgen i Swyddogion fel rhan o'r Ymgyngoriad ar yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd yn bosibl i swyddogion Undeb y Brigadau Tân fod yn bresennol. Mynychodd cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân rai o'r Digwyddiadau Ymgyngori (fel y nodwyd yn adran 4.1) ac mae Undeb y Brigadau Tân Gogledd Cymru wedi bod yn weithgar ar X (Twitter yn gynt) yn ystod yr ymgyngoriad (gweler adran 6.1). Mae hyn wedi arwain at gyfeiriadau at 'opsiynau 4 a 5 Undeb y Brigadau Tân' yn cael sylwadau/trafodaeth drwy lawer o gwestiynau agored yn yr arolwg ymgyngori.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgyngoriad, gydag Adran 2 yn darparu Crynodeb Gweithredol. Mae Adran 3 yn rhoi dadansoddiad llawn o'r arolwg ymgyngori, gydag adran 4 yn rhoi adborth o'r Digwyddiadau Ymgysylltu Cymunedol a grwpiau ffocws EDI. Mae Adran 5 yn canolbwyntio ar ddadansoddi adborth/ymatebion gweithwyr ac mae adran 6 yn manylu ar ohebiaeth ychwanegol gan gynnwys adborth ffurfiol gan awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, gohebiaeth cyfryngau cymdeithasol, llythyrau gan Aelodau Seneddol/Senedd a deisebau.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi gan Sarah Barnett, Ymgyngorydd Ymchwil Annibynnol.

2.0 Crynodeb Gweithredol

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad llawn rhwng 21 Gorffennaf a 30 Medi 2023 a derbyniwyd 1,726 o ymatebion (1,500 ar-lein a 226 copi papur).

Derbyniwyd 191 o ymatebion gan weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Daeth dros 400 o bobl i Ddigiwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned ac fe wnaeth dros 480 o bobl fynychu sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant neu ymgysylltu â'r swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r ymgynghoriad.

Derbyniwyd cyfanswm o 119 o ymholiadau a/neu wrthwynebiadau i'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda'r mwyafrif o'r rhain ar ffurf negeseuon e-bost. Derbyniwyd niferoedd llai trwy ddulliau fel llythyrau, galwadau ffôn ac ymholiadau wyneb yn wyneb.

Mae'r ymholiadau/gwrthwynebiadau uchod yn cynnwys 10 gan Aelodau o'r Senedd/Aelodau Seneddol, 14 o Awdurdodau Lleol a/neu Gynghorau Tref, 2 gan gynghorwyr, 1 gan gynrychiolydd y llywodraeth a 2 gan gyrff cynrychioli. Derbyniwyd 5 deiseb yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Ymatebodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i adborth drwy gydol y cyfnod ymgynghori gyda thabl 2.1 yn crynhoi sut yr ymatebon nhw.

Tabl 2.1 – Ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i adborth am yr ymgynghoriad

Ceisiadau a wnaed/materion a godwyd	Ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Hwb Ymgynghori i gynnal yr Holiadur	Derbyniwyd adborth gan aelodau'r cyhoedd oedd yn ei chael hi'n anodd cwblhau'r holiadur. Cynigiodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eu cynorthwyo nhw dros y ffôn, anfon copïau papur neu anfon eu hadborth i gyfeiriad e-bost Adolygiad Darpariaeth Frys.
Newid lleoliadau rhai o'r digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i fod yn fwy lleol i'r gorsafoedd tân ar alwad y mae cynigion sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 3 yn effeithio arnynt.	Roedd yn amlwg yn gynnar iawn bod rhanddeiliaid mewn rhai lleoliadau yn teimlo ei bod yn bwysig bod y digwyddiadau ymgysylltu yn fwy lleol i'r gorsafoedd tân a enwyd yn Opsiwn 3 a gwnaed y penderfyniad ar unwaith i drefnu digwyddiad lleol ym mhob un o'r ardaloedd hyn. Cyhoeddwyd y rhain mewn datganiad i'r wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar bosteri a anfonwyd allan i'r orsaf i'w dosbarthu'n lleol. Roedd yna bresenoldeb cadarnhaol yn y digwyddiadau yma.
Newid amser ar gyfer digwyddiad ymgysylltu efo'r cyhoedd	Derbyniwyd gwybodaeth bod slot yn ystod y dydd yn anodd i bobl ei fynychu felly symudwyd y slot i'r nos. Roedd presenoldeb yn uchel gyda'r nos.
Mynychu Sioe Cerrigydrudion	Gofynnodd staff i swyddog fynychu'r sioe i siarad am yr ymgynghoriad - daeth Prif Swyddog a rheolwr canol i'r sioe gyda staff gwylfa Cerrigydrudion.
Ymestyn y dyddiad cau	Yn dilyn adborth gan aelodau'r cyhoedd a staff, sefydliadau lleol a rhai sy'n cynrychioli eu cymunedau yr oedd yn awyddus i gael mwy o amser i roi barn - penderfynwyd ymestyn y dyddiad cau tan y 30ain o Fedi 2023.
Cydbwysedd o ran rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau	Derbyniwyd adborth nad oedd y digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu hysbysebu'n ddigon da. Roedd yr hysbysadau eisoes yn rhan o'r cynllun cyfathrebu, ond ychwanegodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru hysbysebion a fideos ychwanegol y telir amdanynt nhw i'r cynllun.
Yr angen am ymgysylltu ychwanegol â phobl ifanc	Sylweddolodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru nad oedd llawer o bobl ifanc yn llenwi'r holiadur - trefnodd y swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fynychu grwpiau ieuenctid a ffeiriau'r glas i ymgysylltu â phobl ifanc. Parhaodd y Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i wneud ymdrechion i drefnu digwyddiadau ymgysylltu â phobl ifanc trwy golegau unwaith y dechreuodd y flwyddyn academiaidd newydd. Arweiniodd hyn at ymgysylltu efo dros 250 o bobl ifanc.
Deisebau	Trefnodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddigwyddiad ychwanegol gyda'r swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn dilyn deiseb gan bobl yng Nghonwy a oedd yn ei chael hi'n anodd llenwi'r holiadur ar-lein. Yn y sesiwn yma fe helpodd y grŵp i lenwi copïau papur o'r holiadur.
Cais i ychwanegu'r fideo oedd yn cael ei chwarae yn y digwyddiadau ymgysylltu efo'r cyhoedd i'r wefan	Cafodd y cyflwyniad fideo a ddefnyddiwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu ei ychwanegu at y wefan yn dilyn galwadau gan wleidydd lleol yn nigwyddiad ymgysylltu Wrecsam.
Ychwanegiadau i'r Cwestiynau Cyffredin (y cyhoedd a staff)	Drwy fonitro'r cyfryngau cymdeithasol a cheisiadau am wybodaeth drwy e-bost, y llwybr rhyddid gwybodaeth ac ati roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi gallu ychwanegu at y Cwestiynau Cyffredin. Pynciau enghreifftiol: cost yr ymgynghoriad, polisi ar ddeisebau. Ychwanegodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru at y rhain yn dilyn yr adborth a gafwyd.

2.1 Canfyddiadau'r arolwg ymgynghori

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau'r arolwg ymgynghori.

2.1.1 Risgiau

Tanau mewn tai oedd y risg oedd yn peri'r mwyaf o bryder i ymatebwyr (gyda 70% yn dewis hyn fel y risg oedd yn peri'r mwyaf o bryder), ac yna gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, tanau gwyllt a llifogydd. Ymhlith y risgiau eraill yr oedd ymatebwyr o'r farn y dylai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer oedd tanau ar safleoedd masnachol, diwydiannol a busnesau, risgiau sy'n gysylltiedig â cherbydau trydan ac ynni solar, a risgiau amgylcheddol yn sgil newid yn yr hinsawdd.

2.1.2 Meini prawf y penderfyniadau

Awgrymodd tri chwarter yr ymatebwyr mai 'darpariaeth frys' yw'r meini prawf pwysicaf ar gyfer gwneud penderfyniadau pan fyddant yn cael eu gosod yn erbyn 'Gwasanaethau amddiffyn ac atal', 'fforddiadwyedd', 'gweithlu', 'gwasanaeth teg a chyfartal' a 'gwerth cymdeithasol'. 'Gwasanaethau amddiffyn ac atal' a gafodd eu hystyried yn fwyaf aml fel yr ail bwysicaf. Rhoddwyd graddfeydd tebyg i bwysigrwydd y 'gweithlu' a 'gwasanaeth teg a chyfartal', gyda 'fforddiadwyedd' a 'gwerth cymdeithasol' yn cael eu hystyried fel y rhai lleiaf pwysig yn fwy aml.

Trafodwyd darpariaeth frys fel blaenoriaeth ac y dylai ddod yn gyntaf bob amser, ynghyd â phwysigrwydd ymateb yn gyflym i argyfwng. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod dulliau atal rhagweithiol gyda mwy o addysg yn bwysig, ond ar y cyfan, yn llai o flaenoriaeth na darpariaeth frys. Trafododd yr ymatebwyr fforddiadwyedd fel y flaenoriaeth isaf ar gyfer gwasanaeth hanfodol, gyda chyfeiriadau at y ffaith bod bywydau yn bwysicach nag arian ac nad oedd modd rhoi pris ar achub bywydau. Ystyriwyd bod y gweithlu'n bwysig, gyda chyfeiriadau at yr angen am weithlu hapus sydd wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi er mwyn cadw staff a darparu'r gwasanaeth hanfodol. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod gwasanaeth teg a chyfiawn yn bwysig ynghyd â'r angen i gael y bobl iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn a bod yr un gwasanaethau ar gael i bawb. Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod effaith newidiadau ar gymunedau, ond gan gydnabod bod gwerth cymdeithasol yn bwysig, yng nghyd-destun popeth arall, roedd yn cael ei ystyried yn llai o flaenoriaeth.

Mae'r adrannau isod yn manylu ar y gefnogaeth a gofnodwyd ar gyfer pob un o'r Opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt, ynghyd â chrynodeb o'r adborth o ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.1.3 Opsiwn 1

<p>Opsiwn 1</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal model ymateb 24 awr yn ein gorsafoedd amser cyflawn presennol, gyda gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd criw dydd. Ychwanegu tair gorsaf dân staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau, gan adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn dilyn newidiadau yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig. 													
<p>I ba raddau ydych chi'n meddwl bod opsiwn 1 yn diwallu anghenion ein cymuned?</p>													
<table border="1"> <caption>Data from Pie Chart</caption> <thead> <tr> <th>Categori</th> <th>Procent</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cytuno'n gryf</td> <td>48%</td> </tr> <tr> <td>Cytuno</td> <td>20%</td> </tr> <tr> <td>Ddim yn cytuno na anghytuno</td> <td>9%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno</td> <td>6%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno'n gryf</td> <td>16%</td> </tr> </tbody> </table>		Categori	Procent	Cytuno'n gryf	48%	Cytuno	20%	Ddim yn cytuno na anghytuno	9%	Anghytuno	6%	Anghytuno'n gryf	16%
Categori	Procent												
Cytuno'n gryf	48%												
Cytuno	20%												
Ddim yn cytuno na anghytuno	9%												
Anghytuno	6%												
Anghytuno'n gryf	16%												
<p><i>Sail: holl ymatebwyr gan eithrio 'dim ymateb' (1,533)</i></p>													
<ul style="list-style-type: none"> Ar y cyfan, roedd dwy ran o dair o ymatebwyr (68%) yn cytuno bod Opsiwn 1 yn diwallu anghenion eu cymunedau. Roedd ymatebwyr yng Nghonwy (76%), Gwynedd (73%), Ynys Môn (66%) a Wrecsam (67%) yn cytuno'n amlach bod Opsiwn 1 yn diwallu anghenion eu cymuned na'r rhai yn Sir Ddinbych (58%) a Sir y Fflint (58%). Roedd 65% o weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno bod yr Opsiwn hwn yn diwallu anghenion cymunedau, gyda 31% yn anghytuno (o gymharu â 22% o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno ar y cyfan). 													
<p>Crynodeb o'r pethau cadarnhaol</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae Opsiwn 1 yn cyflwyno'r ddarpariaeth orau / gwella darpariaeth argyfwng (y gorau o'r opsiynau) Swyddi wedi'u diogelu Dim cau gorsafoedd Amseroedd ymateb gwell Darpariaeth well/tecach mewn ardaloedd gwledig Agosaf at y model presennol Mwy cost-effeithiol / gwahaniaeth o ran cost o gymharu ag Opsiynau eraill ddim yn arwyddocaol Yr opsiwn mwyaf diogel Yn darparu Staff Dydd mewn gorsafoedd ychwanegol 	<p>Crynodeb o'r pethau negyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymateb 24 awr (fel y darperer yn y model cyfredol) i fod yn ofynnol Lleihau darpariaeth/dim digon o ddarpariaeth Cymryd darpariaeth o un ardal i'w ddefnyddio ar gyfer un arall Cynnydd mewn amseroedd ymateb Mwy o risg yn ystod y nos Yn rhoi bywydau mewn perygl Angen cynnydd yn y ddarpariaeth/opsiynau twf 												

2.1.4 Opsiwn 2

<p>Opsiwn 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd. • Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad. • Mae adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig yn caniatáu ychwanegu tair gorsaf staff dydd, wedi'u lleoli yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 22 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn. • Cyflawni arbedion o £1.1 miliwn tuag at gyllideb 2024/25. 													
<p>I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion ein cymunedau?</p>													
<table border="1"> <caption>Data for Pie Chart: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion ein cymunedau?</caption> <thead> <tr> <th>Categori</th> <th>Procent</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Cytuno'n gryf</td> <td>5%</td> </tr> <tr> <td>Cytuno</td> <td>13%</td> </tr> <tr> <td>Ddim yn cytuno na anghytuno</td> <td>17%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno</td> <td>23%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno'n gryf</td> <td>40%</td> </tr> </tbody> </table>		Categori	Procent	Cytuno'n gryf	5%	Cytuno	13%	Ddim yn cytuno na anghytuno	17%	Anghytuno	23%	Anghytuno'n gryf	40%
Categori	Procent												
Cytuno'n gryf	5%												
Cytuno	13%												
Ddim yn cytuno na anghytuno	17%												
Anghytuno	23%												
Anghytuno'n gryf	40%												
<p><i>Sail: holl ymatebwyr gan eithrio 'dim ymateb' (1,456)</i></p>													
<ul style="list-style-type: none"> • Ar y cyfan, roedd 18% o ymatebwyr yn cytuno bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion eu cymunedau, gyda 63% yn anghytuno. Roedd ymatebwyr yn Wrecsam (84%), Sir y Fflint (75%) a Sir Ddinbych (67%) yn anghytuno amlaf bod yr Opsiwn hwn yn diwallu anghenion eu cymunedau yn achos o leiaf hanner yr ymatebwyr ym mhob ardal (Gwynedd (56%), Conwy (52%) ac Ynys Môn (50%)). • Roedd 28% o gyflogeion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno bod yr Opsiwn hwn yn diwallu anghenion cymunedau, gyda 59% yn anghytuno. 													
<p>Crynodeb o'r pethau cadarnhaol (Sylwer bod nifer yr ymatebwyr yn fychan)</p>	<p>Crynodeb o'r pethau negyddol</p>												
<ul style="list-style-type: none"> • Gwella/cynnal darpariaeth • Yn darparu arbedion/arbed arian/fforddiadwy • Dim angen 3 peiriant tân yn Wrecsam/Heb ei ddefnyddio yn ddigonol • Dim cau gorsafoedd • Cyflwyno darpariaeth ddydd ychwanegol mewn 3 gorsaf • Yn decach/ Cymunedau gwledig yn cael eu gwasanaethu'n well 	<ul style="list-style-type: none"> • Colli swyddi/lleihau niferoedd staff • Angen 3 pwmp yn Wrecsam/diffyg cefnogaeth i gael gwared ar offer • Lleihad mewn darpariaeth • Llai o ddiogelwch/rhoi bywydau mewn perygl • Dylid ystyried diogelwch y cyhoedd nid torri costau • Angen cynnydd mewn darpariaeth/opsiynau twf • Ymateb 24 awr (fel y darperir yn y model cyfredol) i fod yn ofynnol • Effeithiau negyddol ar amseroedd ymateb 												

2.1.5 Opsiwn 3

<p>Opsiwn 3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Model ymateb lle mae gorsafodd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd. • Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad. • Mae adleoli staff o orsafodd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Gwledig yn caniatáu ychwanegu dwy orsaf staff dydd, wedi'u lleoli ym Mhorthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 36 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn. • Cau pum gorsaf dân ar-alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy a Llanberis, gan arwain at ostyngiad o 38 yn nifer y diffoddwyr tân ar-alwad. • Cyflawni arbedion o £2.4 miliwn tuag at gyllideb 2024/25. 													
<p>I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 3 yn diwallu anghenion ein cymunedau?</p>													
<table border="1"> <caption>Data for Pie Chart: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 3 yn diwallu anghenion ein cymunedau?</caption> <thead> <tr> <th>Categori</th> <th>Procent</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Anghytuno'n gryf</td> <td>83%</td> </tr> <tr> <td>Anghytuno</td> <td>10%</td> </tr> <tr> <td>Ddim yn cytuno na anghytuno</td> <td>4%</td> </tr> <tr> <td>Cytuno'n gryf</td> <td>3%</td> </tr> <tr> <td>Cytuno</td> <td>0%</td> </tr> </tbody> </table>		Categori	Procent	Anghytuno'n gryf	83%	Anghytuno	10%	Ddim yn cytuno na anghytuno	4%	Cytuno'n gryf	3%	Cytuno	0%
Categori	Procent												
Anghytuno'n gryf	83%												
Anghytuno	10%												
Ddim yn cytuno na anghytuno	4%												
Cytuno'n gryf	3%												
Cytuno	0%												
<p><i>Sail: holl ymatebwyr gan eithrio 'dim ymateb' (1,463)</i></p>													
<ul style="list-style-type: none"> • Ar y cyfan, roedd 3% o ymatebwyr yn cytuno bod Opsiwn 3 yn diwallu anghenion eu cymunedau, gyda 93% yn anghytuno. Roedd ymatebwyr yn Wrecsam (95%), Conwy (95%), Gwynedd (92%) a Sir y Fflint (92%) yn anghytuno'n amlach ag Opsiwn 3, a dyma'r achos hefyd i 86% yn Ynys Môn a 90% yn Sir Ddinbych. • Roedd 5% o weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cytuno bod yr Opsiwn hwn yn diwallu anghenion eu cymunedau, gyda 92% yn anghytuno. 													
<p>Crynodeb o'r pethau cadarnhaol (Sylwer bod nifer yr ymatebwyr yn fychan)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Opsiwn Rhataf gyda'r nifer fwyaf o arbedion ac yn costio llai i'r trethdalwyr • Yr Opsiwn Tecaf ar draws Gogledd Cymru 	<p>Crynodeb o'r pethau negyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cau gorsafodd tân • Lleihau diogelwch/rhoi bywydau a'r gymuned mewn perygl • Lleihau darpariaeth gan arwain at wasanaeth tlotach • Gostyngiad yn niferoedd diffoddwyr tân / colli swyddi • Dylai fod yn ymwneud â diogelwch y cyhoedd nid torri costau • Angen cynnydd mewn darpariaeth/Opsiynau twf • Angen 3 pwmp yn Wrecsam/diffyg cefnogaeth i gael gwared ar offer • Gormod o ostyngiad/nid yw'n darparu unrhyw welliannau i'r gwasanaeth 												

2.2 Prif themâu

Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau'r arolwg ymgynghori gyda themâu a godwyd ac sy'n deillio o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, Sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad.

2.2.1 Gwerthfawrogiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) a'r cyfle i roi adborth fel rhan o'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys

Manteisiodd yr ymatebwyr ar y cyfle i ddiolch i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am y gwaith maent yn ei wneud i gadw cymunedau'n ddiogel ac roeddent yn awyddus i gofnodi'r gwerth maent yn ei roi ar Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'u hedmygedd o ymroddiad a dewrder diffoddwyr tân.

Roedd yr ymatebwyr yn ddiolchgar am y cyfle i rannu eu barn ac i ymateb i'r ymgynghoriad ac yn diolch i Swyddogion a fynychodd gyfarfodydd a sesiynau i ddarparu rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

Gwerthfawrogwyd ymrwymiad parhaus y gwasanaeth i gydweithio'n effeithiol, gyda chydabyddiaeth hefyd yn cael ei roi i'r angen i'r gwasanaeth sicrhau darpariaeth decach ar draws Gogledd Cymru ac i adlewyrchu anghenion amrywiol y rhanbarth.

Manteisiodd cyfranogwyr a fynychodd ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned hefyd ar y cyfle i ddiolch i griwiau tân am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Canmolwyd cynnwys dogfennau a chylchrediad deunyddiau yn ymwneud â'r ymgynghoriad hefyd mewn un digwyddiad, ynghyd â gwerthfawrogiad o wasanaethau cyfieithu. Roedd nifer o sefydliadau a oedd yn cynnal sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd yn ddiolchgar am gael ymwneud â'r ymgynghoriad a chael y cyfle i gymryd rhan ynddo.

2.2.2 Amseriad yr ymgynghoriad

Cododd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch amseriad yr ymgynghoriad a themlent fod angen mwy o amser i ganiatáu digon o ymgysylltu â'r gweithlu a'r cymunedau yr effeithir arnynt. Er bod rhai ymatebwyr wedi gofyn am estyniadau hirach, rhoddwyd estyniad hyd 30 Medi mewn ymateb i geisiadau (gweler tabl 2.1).

2.2.3 Cefnogaeth ar gyfer Gorsafoedd Tân â Chriw Dydd ychwanegol

Roedd ymatebion gan awdurdodau lleol ac Aelodau'r Senedd/Aelodau o Senedd y DU yn cefnogi ychwanegu 3 gorsaf dân â staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau. Roedd yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r manteision a fwriadwyd a'r ymateb gwell yn ne Sir Ddinbych yn sgil yr orsaf â staff dydd yng Nghorwen, ond nid oeddent yn gallu cefnogi'r Opsiynau a gynigiwyd yn llawn oherwydd nad oeddent yn cefnogi'r newidiadau i'r ddarpariaeth yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy. Yn yr un modd, roedd ychwanegu staff dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael ei ystyried yn gam sy'n cryfhau'r gallu i ymateb yn gyflym yn yr ardaloedd dan sylw. Byddai'r ymatebwyr yn cefnogi'r ddarpariaeth ychwanegol hon a ddarperir yn Opsiynau 1 a 2, ond nid yn Opsiwn 3 oedd yn golygu cau gorsafoedd ar-alwad lleol.

Cyfeiriodd ymatebwyr i'r arolwg ymgynghorol at ychwanegu 3 gorsaf gyda chriw dydd fel agweddau cadarnhaol o fewn Opsiwn 1 (2%; 34 o ymatebwyr) ac Opsiwn 2 (1%; 17 o ymatebwyr).

2.2.4 Darparu gwasanaethau atal

Roedd y mynychwyr yn nifer o'r sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cwestiynu effaith y newidiadau arfaethedig ar weithgareddau atal a sut byddai'r gwasanaeth yn sicrhau y gall gwaith atal pwysig gynyddu tra mae toriadau'n cael eu gwneud. Yn gyffredinol, roedd gwasanaethau amddiffyn ac atal yn cael eu hystyried fel yr ail feini prawf pwysicaf ar gyfer gwneud penderfyniadau gan ymatebwyr yr arolwg ymgynghori, yn dilyn darpariaeth frys. Roedd pobl ifanc a oedd yn mynychu Grŵp Ieuencid Islamaidd Wrecsam yn poeni'n benodol am ddiffyg diffoddwyr tân i gynnal gwaith 'cymunedol' ac ymweliadau Diogel ac Iach pe bai niferoedd staff yn cael eu lleihau. Wrth ystyried Opsiwn 1, cyfeiriodd 10 o ymatebwyr yr arolwg ymgynghori (1%) at y ffaith bod yr Opsiwn yn darparu mwy o ymgysylltu â'r gymuned, addysg ac atal, gyda 4 ymatebydd (<1%) yn cyfeirio at y ffaith bod Opsiwn 3 yn arwain at golli gwaith ymgysylltu â'r gymuned.

2.2.5 Lles y gweithle

Wrth drafod meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau, ystyriwyd gofalu am staff, sicrhau bod staff yn cael eu clywed ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn bwysig, gydag iechyd a lles y criw yn hanfodol ar gyfer ymateb brys.

Mynegwyd pryder yn un o'r sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bod newid i'r System Dyletswydd, ac y byddai newidiadau i batrymau sifft yn cael mwy o effaith ar ferched (os mai nhw oedd y prif ofalwr/rhiant).

Codwyd y gofyniad, o fewn Opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt, i staff adleoli ac effeithiau newidiadau i batrymau sifft ar fywyd teuluol mewn un digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned, a chafwyd cadarnhad y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi gweithwyr ac yn gweithio gyda nhw wrth wneud y gorau i'r gwasanaeth.

Gwnaeth nifer fach o ymatebwyr yn yr arolwg ymgynghori gyfeirio at effaith newidiadau ar les staff a/neu forâl wrth drafod eu barn ar bob un o'r Opsiynau arfaethedig. (Opsiwn 1 – 1%; 16 o ymatebwyr, Opsiwn 2 - <1%; 7 o ymatebwyr, Opsiwn 3 - <1%; 7 o ymatebwyr).

2.2.6 Gwrthwynebiad i symud gwasanaethau/darpariaeth o un ardal i'r llall

Er bod ymatebwyr yr arolwg ymgynghori wedi gweld Opsiwn 1 yn ffordd o gyflwyno darpariaeth fwy teg (3%; o ymatebwyr) a darpariaeth well ar gyfer ardaloedd gwledig (4%; 73 o ymatebwyr), mynegwyd pryder bod darpariaeth yn cael ei gymryd oddi ar un ardal i'w ddefnyddio mewn un arall (1%; 21 o ymatebwyr).

Cyfeiriodd yr ymatebwyr at y gyfatebiaeth o 'roi efo un llaw a chymryd efo'r llall' wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Er eu bod yn croesawu'r bwriad i ehangu gwasanaethau a gwella gwasanaethau mewn ardaloedd penodol, teimlwyd na ddylid gwneud hyn ar draul colli gwasanaeth brys hanfodol a hir sefydlog mewn ardaloedd eraill.

Roedd mynychwyr Digwyddiad Ymgysylltu â'r Gymuned y Rhyl yn cefnogi'r farn hon gan deimlo bod eu gwasanaeth nhw yn cael ei 'leihau er mwyn ddiogledu mannau eraill', a bod gofyn iddyn nhw dalu'r pris er budd pobl mewn ardaloedd eraill.

2.2.7 Gwrthwynebiadau i newid y ddarpariaeth yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy

Codwyd gwrthwynebiadau a chyflwynwyd deisebau mewn perthynas â'r newidiadau arfaethedig yng ngorsafoddd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy o staff/criw 24 awr i staff/criw dydd. Disgrifiwyd y rhain fel ardaloedd poblog iawn a oedd yn gofyn am y lefel bresennol o wasanaeth, gyda'r ymatebwyr yn poeni am y risg a allai godi o'r newidiadau hyn yn y pendraw. Cododd yr ymatebwyr bryder am effeithiau ar y gymuned ehangach ac ar ddiogelwch, lles, trefniadau gwaith a bywyd gweithwyr a thrigolion yr ardal.

Roedd un Aelod o Senedd y DU yn teimlo bod gofyn i drigolion ddewis yr Opsiwn 'lleiaf gwael' gyda'r angen am Opsiwn sy'n cynnig gwelliant i'r gwasanaeth. Roedd nifer o ymatebion ffurfiol yn gwrthwynebu pob un o'r 3 Opsiwn a gyflwynwyd ar y sail eu bod nhw i gyd yn cael effeithiau niweidiol ar y cymunedau a wasanaethir gan Orsafoedd Tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy.

Roedd tua 6% o ymatebwyr yr arolwg ymgynghori (102 o ymatebwyr) yn awgrymu eu bod yn teimlo bod angen ymateb 24 awr (fel sydd yn y model presennol) yn Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy wrth iddynt esbonio eu sylwadau ar Opsiwn 1, gyda 2% (38 o ymatebwyr) yn trafod y farn y byddai'r Opsiwn hwn yn arwain at ostyngiad mewn darpariaeth.

2.2.8 Gwrthwynebiadau i newidiadau i'r ddarpariaeth yn Wrecsam

Derbyniwyd gwrthwynebiadau a deiseb ynghylch newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth gwasanaeth yn Wrecsam. Disgrifiwyd Wrecsam fel un o ganolfannau mwyaf prysur Ogledd Cymru, gyda chyfeiriadau niferus at faint y boblogaeth, a chyfeiriadau ychwanegol at ystadau diwydiannol a'r carchar fel risgiau. Teimlwyd bod lleihau nifer y swyddi diffoddwyr tân yn Wrecsam a dileu'r ail beiriant tân amser llawn yn 'annerbyniol' gan fod angen cynnal darpariaeth frys yn yr ardal. Codwyd y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi gosod rhwymedigaeth ar Gyngor Wrecsam i ganiatáu creu miloedd o dai ychwanegol yma hefyd, gan ofyn i'r gwasanaeth tân gynllunio ar gyfer y dyfodol, gan y byddai mwy o gartrefi a diwydiannau yn yr ardal.

Roedd nifer o Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned yn gwrthwynebu'r Opsiynau a oedd yn effeithio ar Wrecsam. Rhannwyd cynnig a chytunwyd arno'n unfrydol gan nifer o Gynghorau Cymuned yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cynhaliwyd rali a drefnwyd gan Undeb y Brigadau Tân ar 30 Medi hefyd yn Wrecsam gyda dros 100 o brotestwyr yn protestio yn erbyn y cynlluniau yn yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

Wrth drafod Opsiwn 2, er bod rhai o ymatebwyr yr arolwg ymgynghori yn teimlo nad oedd digon o ddefnydd ar y tri pheiriant yn Wrecsam (1%; 22 o ymatebwyr) ac felly'n cefnogi Opsiynau ar gyfer cael gwared ar beiriant, roedd eraill yn teimlo bod angen tri pheiriant (6%; 101 o ymatebwyr).

Wrth anghytuno â thoriadau i wasanaethau yn Wrecsam o dan Opsiwn 2, cyfeiriodd 4% arall (66 o ymatebwyr) yn yr arolwg ymgynghori at y ffaith bod Wrecsam yn Ddinas sy'n tyfu gydag ystadau diwydiannol mawr. Cyfeiriodd 4% (64 o ymatebwyr) at yr angen am y trydydd peiriant yn Wrecsam wrth drafod Opsiwn 3, gyda Wrecsam angen 'gwasanaeth llawn'.

2.2.9 Gwrthwynebiadau i gau Gorsafoedd Tân Lleol ar alwad (Opsiwn 3)

Roedd nifer o ymatebion ffurfiol yn gwrthwynebu cau gorsafoedd tân lleol ar alwad - rhywbeth a gynigiwyd yn Opsiwn 3. Cyflwynwyd deisebau mewn perthynas â hyn yn Nigwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned yng Nghonwy a Biwmares, gydag un arall yn cael ei gyflwyno ar ffurf llythyr/e-bost.

Trafodwyd y byddai cau gorsafoedd ar alwad lleol yn arwain at ardaloedd yn dod yn fwy agored i niwed, gyda mwy o debygolrwydd y byddai bywydau'n cael eu colli. Trafodwyd diffyg argaeledd mewn gorsafoedd cyfagos, tagfeydd a phroblemau mynediad mewn ymatebion ffurfiol.

Rhannwyd y diffyg cefnogaeth i Opsiwn 3 o ran cau gorsafoedd lleol yn y sesiynau ymgysylltu â'r gymuned.

Trafodwyd 'Dim gorsafoedd yn cau' fel elfen gadarnhaol o Opsiwn 1 gan 5% (81 ymatebydd) yn yr arolwg ymgynghori ac fel elfen gadarnhaol o Opsiwn 2 gan 1% (18 ymatebydd). Cyfeiriodd 18% o'r ymatebwyr (314 ymatebydd) at gau gorsafoedd a/neu'r angen am orsafoedd lleol wrth iddynt rannu eu barn ar Opsiwn 3.

2.2.10 Cefnogi gwasanaethau eraill

Trafodwyd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi'r Gwasanaeth Ambiwylans fel 'risg' ychwanegol (3%; 56 o ymatebwyr) ac fel 'meini prawf eraill' i'w hystyried (1%; 10 o ymatebwyr) gan ymatebwyr yn yr arolwg ymgynghori. Cyfeiriodd 5% (79 o ymatebwyr) at Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi'r Gwasanaeth Ambiwylans wrth ymateb i argyfyngau meddygol fel maes arall o ddarpariaeth frys yr hoffem weld yn cael ei hystyried.

Codwyd hyn hefyd fel pryder mewn ymateb gan Aelod o Senedd y DU, gyda'r farn na ddylai'r Gwasanaeth Tân fod yn gyfrifol am wneud yn iawn am y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi 'camreoli'r Gwasanaeth Ambiwylans'.

Er iddo gael ei ddisgrifio fel 'syniad rhagorol' mewn un digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned, holodd mynychwyr pwy fyddai'n talu i'r Gwasanaeth Tân gynorthwyo'r Gwasanaeth Iechyd i ddelio ag argyfyngau meddygol.

2.2.11 Recriwtio a chadw

Awgrymwyd bod diogelu swyddi yn ganlyniad cadarnhaol i Opsiwn 1 gan 7% (114 o ymatebwyr) o ymatebwyr yr arolwg ymgynghori. Cyfeiriodd 12% (204 o ymatebwyr) at golli swyddi a pheidio â chefnogi'r gostyngiad mewn swyddi diffoddwr tân wrth drafod Opsiwn 2, gyda 6% (110 ymatebwyr) yn trafod y gostyngiad yn nifer y diffoddwyr tân fel elfen negyddol o Opsiwn 3.

Er bod ymatebwyr yn gwerthfawrogi bod recriwtio wedi bod yn broblem ac yn parhau'n broblem, roedd un Aelod o'r Senedd yn gobeithio y byddai dyhead i recriwtio mwy o staff ac osgoi gostyngiad arfaethedig yn nifer y staff. Trafodwyd hefyd yr angen am ddadansoddiad cynhwysfawr o pam fod argaeledd system dyletswydd yn ôl y galw wedi newid ers 2000 ac ystyriaeth o pam fod recriwtio a chadw'n gymaint o her.

Codwyd 'diffyg argaeledd' hefyd yn un o'r digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ac roedd diddordeb yn yr hyn mae'r Gwasanaeth Tân wedi'i wneud i recriwtio mwy o staff a chreu diddordeb i gynyddu argaeledd. Roedd mynychwyr mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn codi'r angen i feithrin diddordeb ymhlith pobl ifanc drwy addysg, y potensial ar gyfer recriwtio mewn parciau diwydiannol, a'r angen am ragor o waith i annog busnesau i ryddhau gweithwyr os oeddent am fod yn rhan o'r Gwasanaeth Tân.

Roedd cyfranogwyr sesiynau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant hefyd yn awyddus i ddeall mwy am pam fod recriwtio'n gymaint o her. Codwyd a thrafodwyd cyfleoedd posibl i fyfyrwyr ddod yn rhan o'r Gwasanaeth Tân mewn sesiynau a drefnwyd gan y Swyddog Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth mewn colegau a phrifysgolion.

2.2.12 Gofyniad i ystyried Opsiynau Undeb y Brigadau Tân

Cyflwynodd Undeb y Brigadau Tân ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, gyda'r farn nad oedd yr un o'r Opsiynau ymgynghori yn darparu gwelliannau i ddarpariaeth tân llawn amser ar draws pob cymuned yng Ngogledd Cymru, a bod rhaid talu'r pris am yr Opsiynau a gynigwyd. Fel y trafodwyd yn adran 6.3.2, cyflwynodd Undeb y Brigadau Tân 2 o Opsiynau eraill i'w hystyried.

Rhannwyd a thrafodwyd Opsiynau Undeb y Brigadau Tân yn eang drwy gydol y cyfnod ymgynghori, gyda 9 o'r ymatebion ffurfiol gan Aelodau o'r Senedd/Aelodau o Senedd y DU a/neu Awdurdodau Lleol/Cynghorau

Cymuned yn gofyn am ystyried Opsiynau Undeb y Brigadau Tân ymhellach gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn eu hymatebion ffurfiol.

Mynychodd cynrychiolwyr yr Undebau 4 o'r digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned gyda barn gref yn cael ei rhannu gan gyfeirio at yr angen i wella'r gwasanaeth, o bosibl trwy Opsiynau twf. Lle trafodwyd Undeb y Brigadau Tân/Opsiynau twf mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned roedd hi'n ymddangos bod y rhain yn cael eu cefnogi. Roedd mynychwyr yn awyddus i bob Opsiwn (gan gynnwys y rhai a fydda'n arwain at dreth gyngor uwch) gael eu 'rhoi ar y bwrdd i'r cyhoedd wneud penderfyniad gwybodus'.

Cofnodwyd cefnogaeth ar gyfer ystyried Opsiwn Undeb y Brigadau Tân trwy gydol yr arolwg ymgynghori gyda 4% o'r ymatebwyr yn cyfeirio at yr angen i Opsiwn yr Undeb gael ei ystyried wrth rannu eu barn ar bob un o Opsiynau 1, 2 a 3.

2.2.13 Darparu gwasanaeth yn hytrach nag arbed costau

Er bod llawer o'r rhai a wnaeth ddarparu ymatebion ffurfiol yn cydnabod yr angen am arbedion ariannol, roeddent yn teimlo mai'r flaenoriaeth oedd parhau i ddarparu gwasanaethau ar sail asesiad risg o'r galw, waeth beth fo'r gost a bod angen meddwl yn ofalus am ddiogelu bywydau cyn ystyriaethau ariannol.

Roedd ymatebwyr yr arolwg ymgynghori yn cefnogi'r farn hon gyda 6% (105 o ymatebwyr) yn awgrymu y dylai Opsiwn 3 fod yn ymwneud â thorri costau, gyda'r farn y dylai fod yn ymwneud ag achub bywydau a diogelwch y cyhoedd.

Yn yr arolwg ymgynghori, ystyriwyd mai fforddiadwyedd oedd y lleiaf pwysig o'r meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau, gyda llawer o gyfranogwyr o'r farn na ddylid ystyried fforddiadwyedd oherwydd pwysigrwydd y gwasanaeth ac 'nad yw'n ymwneud ag arian'.

Wrth ystyried pob un o'r tri Opsiwn, nododd nifer fach o ymatebwyr yn ddigymell y byddent yn hapus i dalu mwy am wasanaeth digonol/gwell (Opsiwn 1 – 1%; 25 o ymatebwyr, Opsiwn 2 – 1%; 18 o ymatebwyr, Opsiwn 3 – 1%; 9 o ymatebwyr).

2.2.14 Dulliau amgen o arbed costau

Mynegwyd pryder drwy gydol yr ymatebion i'r ymgynghoriad nad oedd yr ymgynghoriad yn trafod nac yn ystyried unrhyw newidiadau i gostau canolog rhedeg y gwasanaeth. Gwnaed cyfeiriadau yn awgrymu y dylai costau 'eraill' fel strwythur gweithredu, arferion gwaith a hyfforddiant gael eu hystyried yn yr adolygiad. Rhannwyd y farn bod angen i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ganolbwyntio ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen yn yr hinsawdd economaidd bresennol, gyda'r angen i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru adolygu eu costau gweinyddol a chanolig. Nododd un ymatebydd mai'r Opsiwn cyntaf ar gyfer torri costau oedd cael gwared ar swyddi gweithredol pellach er y bu twf mewn rolau nad ydynt ar y rheng flaen.

Roedd nifer o ymatebion ffurfiol yn cyfeirio at yr angen i adolygu'r strwythur staff gyda nifer y swyddogion ar strwythur uwch reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub Rhanbarthol yn ymddangos yn uchel o'i gymharu ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill ledled Cymru a Lloegr. Awgrymwyd yr angen i adolygu'r cynnydd a ragwelir yn yr ardoll drwy adolygu gofynion rheoli uwch a threfniadau gweinyddol o fewn yr Awdurdod Tân.

Awgrymwyd y dylid 'gwneud toriadau ar y lefel uchaf' yn un digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned gyda chyfranogwyr mewn sawl sesiwn yn awgrymu adolygu'r strwythur staffio ac edrych ar feysydd eraill lle gellid gwneud arbedion cost posibl.

Awgrymwyd hefyd y dylid adolygu'r cynlluniau ar gyfer buddsoddi cyfalaf ymhellach mewn ymatebion ffurfiol, gyda chyfeiriadau penodol at y ganolfan hyfforddi arfaethedig yn Llanelwy. Er bod pwysigrwydd a gofynion y cyfleuster hwn yn cael eu cydnabod, mynegwyd pryder ynghylch amseru, maint a graddfa'r prosiect ar y pryd.

Codwyd hefyd y gwariant ar fentrau eraill fel fflyd newydd a'r ganolfan hyfforddi newydd mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned, gan holi sut byddai'r rhain yn cael eu hariannu, ac roedd pryder nad oedd sôn am y rhain yn yr ymgynghoriad hwn.

2.2.15 Materion cyllido ehangach

Y tu allan i gylch gwaith yr ymgynghoriad hwn, mynegwyd pryder gan 3 ymatebydd a wnaeth gyflwyno ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad o ran y strwythur cyllido presennol, a'r ffaith nad oedd i'w weld yn dryloyw. Gyda'r model presennol (gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i ariannu drwy ardoll gan Awdurdodau Unedol yn yr ardal) gwelwyd bod unrhyw newid o ganlyniad yn rhoi pwysau ar gyllidebau cynghorau, gan arwain at effeithiau ar wasanaethau eraill neu gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Byddai'n well gan ddau ymatebydd weld 'model treth gyngor tebyg i'r heddlu' gydag un yn awgrymu eu bod yn teimlo y byddai'n briodol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru lobïo'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru am adolygiad gyda ffocws ar fod yn agored a thryloyw.

3.0 Holiadur ymgynghori

3.1 Sampl

Rhannodd cyfanswm o 1,726 o ymatebwyr eu barn ar yr Ymgynghoriad drwy'r arolwg rhwng Gorffennaf 21 a Medi 30 2023.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer o ymatebion a dderbyniwyd ym mhob wythnos o'r ymgynghoriad, ynghyd a chrynodeb o'r gweithgareddau ymgysylltu.

Tabl 3.1.1 – Ymatebion fesul wythnos o'r Ymgynghoriad.

Wythnos yr Ymgynghoriad	Nifer yr ymatebwyr	Crynodeb o'r gweithgaredd
Wythnos 1 (21/7/23 – 27/7/23)	551	Lansio'r Ymgynghoriad (Gwefan; cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol)
Wythnos 2 (28/7/23 – 3/8/23)	71	Diwrnod agored Bae Colwyn (Gorffennaf 29)
Wythnos 3 (4/8/23 – 10/8/23)	28	Eisteddfod Genedlaethol Boduan (Awst 5 - 12)
Wythnos 4 (11/8/23 – 17/8/23)	63	Diwrnod Agored Tywyn (Awst 12) Cerrigydrudion Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned Wrecsam Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned *2 Sioe Môn, Mona (Awst 15 – 16) Sioe Sir Ddinbych a Fflint (Awst 17)
Wythnos 5 (18/8/23 – 24/8/23)	34	Sioe Meirionydd, Harlech (Awst 23)
Wythnos 6 (25/8/23 – 31/8/23)	104	Glannau Dyfrdwy Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned *2 Dolgellau ac Abersoch Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned
Wythnos 7 (1/9/23 – 7/9/23)	133	Digwyddiad Ymgysylltu Ar-lein *2 Rhyl a Rhuthun Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned Llanberis Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned Sioe Cerrigydrudion (Medi 2)
Wythnos 8 (9/9/23 – 15/9/23)	202	Ynys Môn Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned *2 Conwy Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned Gogledd Gwynedd Digwyddiad Ymgysylltu yn y Gymuned *2 Prosesu holiaduron papur o Sioe Cerrig Datganiad i'r Wasg yn nodi ymestyniad o'r Ymgynghoriad i'r 30ain o Fedi
Wythnos 9 (16/9/23 – 22/9/23)	195	Ymatebion papur o Sioe Cerrigydrudion
Wythnos 10 (23/9/23 – 30/9/23)	345	Atgoffa am dyddiad cau yr ymgynghoriad

3.1.1 Ymateb Cyffredinol

Roedd yr **1,726** o ymatebion yn cynnwys **1,500** o ymatebion ar-lein a **226** yn cwblhau fersiwn papur o'r holiadur.

Cwblhawyd **1,582** o ymatebion yn Saesneg a **144** yn Gymraeg.

Yn seiliedig ar boblogaeth cyfrifiad o 687,000 ar gyfer Gogledd Cymru (Cyfrifiad 2021), byddai angen gael sampl o 384 o ymatebion er mwyn bod yn 95% yn sicr (+/-5%) ei fod yn adlewyrchiad cywir o farn y boblogaeth gyfan. Mae'r sampl a gyflawnwyd o 1,726 yn darparu ffin camgymeriad o +/-2.4% (ar y lefel hyder o 95%). Yn ystod yr ymgynghoriad nodwyd nifer o ymatebion 'ymgyrch' posibl a oedd yn union yr un fath neu'n debyg iawn. Nid yw'r dyblygu hwn yn annilysu'r safbwyntiau a fynegir gan yr ymatebwyr hyn, ond mae'n ddefnyddiol bod yn ymwybodol o'r ymatebion hyn er mwyn rhoi cyd-destun i'r math a'r ystod o safbwyntiau a fynegir. Nid yw'r ymatebion posibl hyn wedi'u dadansoddi yn wahanol i ymatebion eraill, ond lle mae'r rhain yn cael effaith fawr ar y themâu allweddol dan unrhyw gwestiwn, amlygwyd hyn.

Cwblhawyd adolygiad gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yng nghanol yr ymgynghoriad, gan nodi bylchau lle derbyniwyd niferoedd isel o ymatebion mewn ardaloedd penodol neu gan grwpiau penodol o'r gymuned. Roedd hyn yn caniatáu i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drefnu ymgysylltu/cyhoeddusrwydd pellach yn ôl yr angen, er enghraifft ymgyrch yn y cyfryngau i gynyddu ymatebion o Sir y fflint a'r ymestyniad o'r ymgynghoriad tan Fedi 30ain.

3.1.2 Lleoliad

Digwyddiad Ar-lein	5/9/23 – 7pm	1
Sir Ddinbych (Y Rhyl)	6/9/23 – 2pm	18
Sir Ddinbych (Rhuthun)	6/9/23 – 7pm	4
Gogledd Gwynedd (Llanberis)	7/9/23 – 7pm	81
Conwy	12/9/23 – 7pm	100+
Gogledd Gwynedd (Bangor)	13/9/23 – 2pm	0
Gogledd Gwynedd (Bangor)	13/9/23 – 7pm	1
Ynys Môn (Llangefni)	14/9/23 – 2pm	1
Ynys Môn (Biwmares)	14/9/23 – 7pm	35

*Mynychodd un cynghorydd y ddwy sesiwn yn Wreccsam

Roedd y mynychwyr yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, gweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gweithwyr wedi ymddeol, cynghorwyr lleol, Aelodau o'r Senedd, Aelod Seneddol, aelodau'r Awdurdod Tân a chynrychiolwyr yr Undeb Frigâd Tân.

Pan oedd niferoedd yn ddigon mawr, defnyddiwyd tocynnau i bleidleisio mewn digwyddiadau fel ffordd o ysgogi ymgysylltiad a thrafodaeth.

Yn ystod digwyddiadau ymgysylltu, gofynnodd mynychwyr a oedd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub opsiwn yr oeddent yn ei ffafrio, gydag un yn gofyn a oedd hwn yn 'ymarfer papur yn unig', nifer yn gofyn pwy oedd wedi cychwyn yr ymgynghoriad ac un yn gofyn faint oedd cost yr ymgynghoriad. Cafodd yr adolygiad ei ddisgrifio fel

'ymarfer torri costau' mewn un digwyddiad gyda'r opsiynau sy'n cael eu hymgyngori arnynt yn cael eu disgrifio fel rhai 'ddim yn dderbyniol'. Gofynnodd mynychwyr eraill am fwy o wybodaeth/eglurhad ar faterion fel y math o system a cynigiwyd yn Nolgellau, logisteg y model ar alwad, esboniad pellach o'r gwahaniaethau rhwng 'criwio dydd' a 'staffio dydd' a phryderon ynghylch costau gwella safonau newydd i griwiau dydd.

Codwyd materion technegol wrth gwblhau'r arolwg ar-lein, ynghyd ag ymholiadau ynghylch cyhoeddusrwydd digwyddiadau (lle'r oedd y nifer a bleidleisiodd yn isel). Nododd un mynychwr fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal dros yr haf pan oedd pobl ar wyliau. Gwnaed ceisiadau am ymgynghoriad pellach, gydag un cais i'r cyflwyniad fideo fod ar gael ar-lein. Cadarnhawyd bod gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael ar X (Twitter yn gynt) i'w rhannu/ail-drydar yn ôl yr angen. Crynhoir crynodeb o'r camau a gymerwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd yma yn adran 2.

Teimlodd un mynychwr bod geiriad yr ymgynghoriad yn gamarweiniol, gan gyfeirio at gael gwared ar drydydd peiriant yn Wrecsam pan deimlwyd bod hyn yn cael gwared ag ail griw mewn gwirionedd. Cododd nifer o fynychwyr eraill faterion gyda'r ddogfen ymgynghori yn 'ddryslud' ac yn 'anodd ei deall'.

Mynegwyd pryder hefyd yn sesiwn Dolgellau na ymgynghorwyd â rhai criwiau cyn i'r opsiynau gael eu mabwysiadu, gyda mynychwr yn sesiwn Cerrigydrudion yn codi pryder na fyddai'r rheiny mewn lleoliadau gwledig/llai yn gallu 'cystadlu' o ran niferoedd wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Darparwyd esboniad o nodiadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru bod yr ymgynghoriad yn ystyried barn yr holl drigolion ac nad refferendwm neu bleidlais oedd hon.

Codwyd amseroedd ymateb (gan gynnwys cwestiynau penodol ar amser rhwng lleoliadau penodol ac amseroedd ymateb disgwylidig yn Abersoch). Codwyd y mater o leihau'r ddarpariaeth pan oedd poblogaeth a nifer y tai yn tyfu hefyd fel pryder, gyda chyfeiriadau yma at y boblogaeth yn Wrecsam a chynnydd yn y boblogaeth yn Abersoch yn ystod yr haf. Gofynnwyd cwestiynau penodol mewn perthynas â gwahaniaethau yn yr amseroedd ymateb ar gyfer criwiau llawn amser a rhai ar alwad.

Trafododd un mynychwr yr ymgynghoriad am 'ddiffyg argaeledd' ac roedd ganddo ddi-ddordeb mewn gwybod beth mae Gwasanaeth tan ac Achub Gogledd Cymru wedi'i wneud i recriwtio mwy o staff a chreu diddordeb i'r criwiau ar alwad gynyddu eu hargaeledd. Cafodd argaeledd yn Abersoch ei drafod fel her, gydag awgrymiadau o fabwysiadu dull tebyg o recriwtio â'r RNLI. Codwyd pryder hefyd y byddai cynnig diffoddwyr tân ar alwad i ymuno ar delerau llawn amser yn creu mwy o fwch yn niferoedd staffio ar alwad. Trafodwyd pryderon tebyg ynghylch argaeledd diffoddwyr tân ar alwad ar draws grwpiau, gyda hyn yn cael ei weld yn broblem am gyfnod o amser, gyda'r farn y bu tanwariant ar staff ar alwad dros y blynyddoedd diwethaf. Awgrymwyd yr angen i feithrin diddordeb ymysg pobl ifanc tra eu bod nhw dal yn yr ysgol, ynghyd ag awgrym ar gyfer recriwtio posibl mewn parciau diwydiannol. Roedd cynghorydd tref a oedd yn bresennol yn y sesiwn ym Miwmares yn teimlo bod angen ymgysylltu i barhau gydag anogaeth busnesau i ryddhau gweithwyr os oeddent am fod yn rhan o'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Codwyd cwestiynau manwl ynghylch newidiadau yn Wrecsam gan gyfeirio at sut y byddai cerbydau gwasanaeth arbennig yn Wrecsam yn cael eu rheoli.

Codwyd pryder gan un mynychwr yn y digwyddiad yn Llanberis ynghylch opsiwn 3, gyda thrigolion yn teimlo eu bod yn 'werth llai' gyda thoriadau i'r ddarpariaeth yn effeithio ar eu diogelwch. Eglurodd y panel nad oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cefnogi opsiwn 3, gyda'r ddau opsiwn arall yn cynnig budd i ardaloedd gwledig drwy wella'r ddarpariaeth.

Rhannodd sawl un a oedd yn bresennol yn Y Rhyl y farn nad oedd yr un o'r opsiynau o fudd i'w hardal a bod eu gwasanaeth yn cael ei 'leihau er mwyn digolledu yn rhywle arall'. Trafodwyd gofyn iddynt dalu mwy er budd pobl mewn ardaloedd eraill. Nid oedd symud adnoddau o un wan i'r llall yn cael ei ystyried fel y dull gorau gyda'r angen am dwf yn y gwasanaeth yn gyffredinol.

Cododd mynychwyr mewn sawl digwyddiad y newid yn y terfyn cyflymder o 17 Medi a chwestiynu effaith debygol hyn ar amseroedd ymateb a chadw staff a oedd yn bresennol i fynychu galwadau.

Mynegwyd pryder ynghylch staff yn gorfod symud i wahanol ardaloedd (gan gynnwys adleoli a symud ysgolion plant ac ati), ynghyd â'r effeithiau ar fywyd teuluol gyda'r newidiadau o'u System Ddyletswydd i Staffio Dydd. Cafwyd cadarnhad y byddai cymorth yn cael ei roi ac y byddai'n ymarfer ehangach wrth adolygu paramedrau a lleoliadau staff, gyda chadarnhad y byddai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithio gyda'u pobl wrth wneud y gorau dros y gwasanaeth.

Cododd yr awgrymiad o 'toriadau o'r brig', gyda rhai oedd yn mynychu nifer o sesiynau yn cyfeirio at adolygu strwythur staffio ac edrych am ffyrdd eraill o arbed arian. Nid oedd torri staff rheng flaen yn cael ei weld fel ateb i leihau costau. Soniwyd am weithio gydag Awdurdodau Tan eraill er mwyn symleiddio gwasanaethau, a'r potensial o rannu safleoedd gyda'r heddlu.

Cwestiynwyd yma hefyd y gwariant ar fentrau eraill megis fflyd newydd a'r ganolfan hyfforddi newydd, gydag ymholiadau ynghylch sut y byddai'r rhain yn cael eu hariannu, a chyfeiriwyd hefyd at y ffaith nad oedd y rhain yn cael eu crybwyll yn yr ymgynghoriad hwn. Byddai syniadau eraill ar arbed costau yn cael eu gwerthfawrogi gydag un mynychwr yn codi cwestiwn ynghylch newidiadau posibl i gontractau prydles a symud i adeiladau sy'n eiddo i'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel awgrym arbed costau. Codwyd hefyd y posibilrwydd o rannu cyfleusterau hyfforddi gyda gwasanaethau tân ac achub eraill. Trafodwyd y fenter gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cefnogi'r gwasanaeth iechyd yma hefyd. Er ei fod yn cael ei ddisgrifio fel 'syniad ardderchog', codwyd y cwestiwn pwy oedd yn mynd i dalu am hyn, gyda'r budd i'r gwasanaeth iechyd.

Ni chefnogwyd cau gorsafoedd mewn trafodaethau mewn digwyddiadau ymgysylltu cymunedol. Codwyd trafodaeth benodol ynghylch cau gorsafoedd tân lleol penodol dros eraill, gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn cwestiynu'r rhesymau dros gau rhai a chynnal rhai eraill. Eglurwyd bod yr opsiynau'n seiliedig ar ddata, gan gynnwys nifer y galwadau ac argaeledd criwiau. Er gwaethaf hyn, codwyd ymholiadau ynghylch y data a ddarparwyd, a dywedodd un mynychwr yn Llanberis fod eu hargaeledd wedi gwella'n ddiweddar oherwydd bod cyflogwyr yn rhyddhau staff. Codwyd pryderon ynghylch strydoedd cul yng Nghonwy sy'n cael eu gwasanaethu gan gerbyd bach oddi ar y ffordd ar hyn o bryd wrth symud ymlaen, a chadarnhawyd y byddai cerbydau'n cael eu hailddosbarthu i orsafoedd eraill pe bai newidiadau'n mynd yn eu blaen.

Roedd mynychwyr sawl sesiwn yn cwestiynu a oedd lle i ystyried opsiynau ychwanegol. Roedd diffyg cefnogaeth i Opsiwn 3 ar draws yr holl ddigwyddiadau gyda phryder bod cynnwys Opsiwn 3, er nad oedd yn cael ei gefnogi, wedi achosi gofid/niwed emosiynol. Trafodwyd opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân i'w hystyried mewn nifer o ddigwyddiadau, gyda swyddogion Undeb y Brigadau Tân yn nigwyddiad Conwy yn ychwanegu opsiwn 'twf' i'r system bleidleisio symbolaidd. (Roedd cynrychiolwyr swyddogol Undeb y Brigadau Tân yn bresennol yn y digwyddiadau yn Llanberis, Cerrigydrudion, y Rhyl a Chonwy). Rhannwyd safbwyntiau cryf o ran gwella'r gwasanaeth, gydag opsiynau twf yn cael eu codi mewn cyfran uchel o sesiynau ynghyd â'r angen i'r rhain gael eu 'rhoi ar y bwrdd i'r cyhoedd wneud penderfyniad gwybodus'. Roedd cefnogaeth i gynyddu'r dreth gyngor i dyfu'r gwasanaeth yn amlwg ar draws digwyddiadau ymgysylltu. Eglurwyd bod opsiwn twf wedi'i gynnwys yn ystod y cyn-ymgyngoriad, ond bod yr Awdurdod Tân

ac Achub wedi penderfynu peidio ag ymgynghori ar opsiwn twf ar hyn o bryd gydag argyfwng costau byw. Roedd llawer o'r rhai a oedd yn bresennol yn anghytuno â hyn ac yn teimlo y dylai hyn fod wedi'i hidlo drwodd i'r cyhoedd gyda'r farn bod yr opsiynau presennol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn 'gyfyngedig'. I ddyfynnu un mynychwr 'dylai'r bobl sy'n dal llinynnau'r pwrs roi'r opsiynau i'r bobl - dyna le mae'r system wedi methu'.

Fel y trafodwyd uchod, lle y codwyd hyn, roedd yn ymddangos bod opsiynau twf, gan gynnwys cynnydd yn y dreth gyngor, yn cael cefnogaeth sylweddol ar draws digwyddiadau, yn enwedig yng Nghonwy, dan arweiniad swyddogion Undeb y Brigadau Tân. Gofynnodd aelod seneddol yn nigwyddiad Conwy a fyddai mynychwyr digwyddiadau mewn ardaloedd eraill yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer opsiynau twf.

Manteisiodd un o'r mynychwyr ar y cyfle i ddiolch i'r criw tân yn Abersoch am eu gwasanaeth i'r gymuned dros y blynyddoedd. Rhoddwyd diolch hefyd yn ystod digwyddiadau gan gynghorydd sir, wedi ei gyfeirio at swyddogion tân yn Ynys Môn am y gwaith y maent yn ei wneud ynghyd â diolch i Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub a ddisgrifiwyd i fod mewn 'lle anodd'. Cafwyd canmoliaeth am gynnwys dogfennau a chylchrediad crynodebau hefyd mewn un digwyddiad, ynghyd â gwerthfawrogiad a nodwyd am ddarparu gwasanaethau cyfieithu.

4.2 Grwpiau Ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel rhan o'r ymgynghoriad lle mynychodd aelodau'r tîm sesiynau i drafod yr ymgynghoriad a chasglu adborth. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod pob aelod o'r gymuned yn cael cyfle i rannu eu barn.

Cynhaliwyd cyfanswm o 17 sesiwn. Mae manylion nifer y mynychwyr yn y tabl isod ar gyfer 15 sesiwn lle derbyniwyd adborth yn ogystal â'r hyn a gofnodwyd ar holiaduron yr ymgynghoriad.

Tabl 4.2.1 – Mynychwyr y Grwpiau Ffocws Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Digwyddiad	Ymgysylltu	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Dyddiad/Amser	Nifer o fynychwyr Chynhwysiant
Canolfan Merched Gogledd Cymru , Y Rhyl		22/8/23 – 12.30pm	12
Rhwydwaith Trawsryweddol Unique (Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint)		24/8/23 – 7.30pm	14 (8 mewn person/6 ar-lein)
Age and Dementia Friendly Treffynnon (Sir y Fflint)		25/8/23 – 12.30pm	23
Rhwydwaith Trawsryweddol Unique (Bangor, Gwynedd)		7/9/23 – 7.30pm	16 (9 mewn person/7 ar-lein)
Grŵp Knit and Natter Craft and Chatter (Saltney, Sir y Fflint)		11/9/23 – 10am	24
Headway Conwy a Sir Ddinbych		12/9/23 – 1.30pm	9
Autistic UK		14/9/23 – 10am	4
Mosg Wrecsam (Gweddïau dydd Gwener)		15/9/23	50
Rhwydwaith Trawsryweddol Unique (Prestatyn)		21/9/23 – 8pm	17 (13 mewn person/5 ar-lein)
Grŵp Ieuentid EYST		19/9/23 – 2.30pm	29
Prifysgol Bangor (Ffair y Glas)		21/9/23 – 10am	100+ yn ymgysylltu yn ystod y dydd
Grŵp 'Brew and Biscuit' i Bobl Hŷn (Llandudno)		27/9/23 – 1pm	28
Prifysgol Wrecsam (Ffair y Glas)		28/9/23 – 10am	100+ yn ymgysylltu yn ystod y dydd
Coleg Cambria (myfyrwyr a staff) – 2 sesiwn		28/9/23 – 1pm & 3pm	54
Grŵp Ieuentid Canolfan Islamaidd Wrecsam		29/9/23 – 3.30pm	9

Roedd y rhai a oedd yn mynychu sesiynau'n cynrychioli amrywiaeth o aelodau'r gymuned gyda'r rhai a allai fel arall yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i'r ymgynghoriad gael eu hannog i gymryd rhan gyda chymorth staff. Cwblhawyd holiaduron ymgynghori yn ystod sesiynau gyda mynychwyr eraill yn dewis mynd â'r holiadur/gwybodaeth i ffwrdd i'w gwblhau yn dilyn y sesiwn. Helpodd grwpiau ffocws mewn Prifysgolion, Colegau lleol a gyda grwpiau ieuentid i gasglu barn pobl ifanc a'r rhai o amrywiaeth o gefndiroedd ethnig.

Fel gyda'r Digwyddiadau Ymgysylltu â'r Gymuned, defnyddiwyd pleidleisio tocyn mewn rhai sesiynau fel ffordd o ysgogi ymgysylltiad a thrafodaeth.

Roedd nifer o fynychwyr wedi gweld neu glywed gwybodaeth/cyhoedduswydd am yr ymgynghoriad o'r blaen ac roeddent yn awyddus i ddeall mwy neu gael eglurder ar agweddau penodol. Roedd diddordeb mewn niferoedd wedi cwblhau'r ymgynghoriad hyd yma, pryd fyddai'r ymgynghoriad yn cau a sut y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu rhannu.

Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol fod Opsiwn 1 yn cael ei weld yn cynnig y 'ddarpariaeth orau', gydag opsiynau sy'n lleihau darpariaeth sydd ddim yn cael eu ffafrio yn cael ei ystyried yn 'gam yn ôl'.

Awgrymodd rhai mynychwyr eu dewis i dalu mwy os oes angen, heb allu 'rhoi pris ar fywyd'.

“Byddwn yn hapus i dalu mwy am wasanaeth gwell.”

Rhannwyd gwrthwynebiad ag Opsiwn 3, gyda hyn yn cael ei ddisgrifio fel 'ddim yn opsiwn da o gwbl' ac yn cael ei weld yn lleihau darpariaeth ar adeg pan oedd angen ei gynyddu. Trafododd un mynychwr eu syndod i weld nad oedd opsiwn i gynyddu darpariaeth tân, gyda'r prif nod yr ymgynghoriad i wella darpariaeth Cyfeiriwyd eto at y gost yma gyda'r farn y gellid gofyn am fwy o arian, gyda'r cynnydd yn yr opsiynau presennol 'ddim llawer i ofyn'.

Codwyd pryderon ynghylch dibynadwyedd timau ar alwad pe bai newidiadau'n cael eu gwneud i griwiau dydd yn unig. Mynegwyd pryder hefyd mewn un sesiwn y byddai'r system newid dyletswydd yn effeithio mwy ar fenywod, gan eu bod nhw gan amlaf yn ofalwyr cynradd/rhieni.

Nid oedd gan fynychwyr hyder y byddai Wrecsam/Glannau Dyfrdwy yn ymdopi gyda nifer llai o offer, gan gyfeirio at boblogaeth yr ardal yn tyfu. Codwyd ymholiadau hefyd ynghylch nifer y digwyddiadau a fynychwyd gan orsafoedd penodol, yn benodol y trydydd peiriant yn Wrecsam. Trafodwyd cael gwared ar ddarpariaeth gwarantedig yn Y Rhyl gyda'r nos fel pryder, gyda hyn yn cael ei ystyried yn orsaf brysur yn ystod yr amser yna.

Roedd mynychwyr mewn nifer o sesiynau yn cwestiynu effaith newidiadau ar weithgarwch atal a sut y bydd Gwasanaeth Tân ac Achub yn sicrhau y gall gweithgarwch atal pwysig dyfu tra bod toriadau'n cael eu gwneud. Roedd pobl ifanc yng Ngrŵp Islamaidd Wrecsam yn poeni am y diffyg diffoddwyr tân i gynnal gwaith 'cymunedol' ac Archwiliadau Diogel ac lach pe bai niferoedd staff yn cael eu lleihau. Roeddent yn rhannu'r farn eu bod yn teimlo nad oedd digon o gyfathrebu i'w cymunedau ar hyn o bryd ac y byddai'r newidiadau hyn yn gwaethygu'r sefyllfa.

Roedd cau gorsafoedd yn creu pryder. Ar hyn o bryd gwelwyd bod Conwy yn gorchuddio ardal fawr gyda phoblogaethau cynyddol ac atyniadau i ymwelwyr, gyda chau'r orsaf dân yn cael ei disgrifio fel 'gwallgofrwydd'. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch pa orsafoedd a ddewiswyd i'w cau, gyda chyfeiriadau at orsafoedd sydd fwyaf lleol iddynt.

Er bod mynychwr mewn un sesiwn yn gwerthfawrogi'r angen i gau gorsafoedd os nad oedd yn bosibl recriwtio Diffoddwyr Tân, byddent yn awyddus i ragor o opsiynau gael eu hystyried ar gyfer recriwtio posibl cyn dechrau. Bu grwpiau eraill yn trafod heriau recriwtio, gyda'r rhai a oedd yn bresennol yn awyddus i ddeall mwy ynglŷn â pham fod recriwtio yn gymaint o her. Awgrymodd un mynychwr y dylid recriwtio gwirfoddolwyr fel opsiwn, a

holodd un arall a oedd unrhyw ddiffoddwyr tân yng Nghymru yn wirfoddol ar hyn o bryd. Holodd un mynychwr yr ymgynghorwyd ag ef ym Mhrifysgol Bangor am fyfyrwyr sy'n gweithio i Wasanaeth Tan ac Achub, a thrafodwyd y cyfle i fyfyrwyr weithio fel diffoddwyr tân ar alwad.

Soniwyd am baneli solar a'r risgiau a ddaw yn eu sgil, ynghyd â phryderon am fatris lithiwm mewn ceir a beiciau hefyd, ynghyd â mynychwyr dwy sesiwn yn codi cwestiynau ynghylch effaith y terfyn cyflymder 20mya newydd ar amseroedd ymateb a'r gallu i ymateb.

Mewn sawl sesiwn roedd y mynychwyr yn awyddus i glywed pa grwpiau eraill yr ymgynghorwyd â hwy, gyda diddordeb mewn pryd yr oedd rhagor o sesiynau cyhoeddus yn cael eu cynnal.

Roedd gan y rhai a fynychodd sesiwn Autistic UK ddiddordeb mewn sut roedd adborth yn cael ei gasglu gan bobl awtistig a phobl anabl eraill, ynghyd â diddordeb mewn faint o staff awtistig sydd gan y gwasanaeth tân a sut mae gwasanaethau fel y gwasanaeth Diogel ac Iach yn cael eu darparu i bobl awtistig.

Roedd gan y Rhwydwaith Trawsrywedol Unique ddiddordeb hefyd mewn gwaith atal a deall mwy am ymgysylltiad sydd gan y Gwasanaeth â'r gymuned a grwpiau.

Mynegwyd pryder yng Ngrŵp Ieuencid Canolfan Islamaidd Wrecsam bod aelodau hŷn y gymuned Fwslimaidd mewn perygl, gyda heriau'n wynebu'r rhai nad yw'r Gymraeg neu Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Cododd aelod o'r grŵp yn y Ganolfan Merched gwestiwn ynghylch faint o ferched sy'n gweithio ar hyn o bryd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a thrafodwyd hyn hefyd ym Mhrifysgol Wrecsam.

Roedd sefydliadau a oedd yn cynnal sesiynau yn ddiolchgar am yr ymgysylltu a rhannwyd gwerthfawrogiad mewn llawer o'r sesiynau.

“Mae'n hyfryd gweld y gwasanaeth tân yn ymweld â'n canolfan ac yn gwrandao ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud.”

“Mae'n wych eich bod yn cynnwys pobl ifanc.”

Roedd sefydliadau hefyd yn awyddus i gefnogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ymgysylltu â chymunedau wrth symud ymlaen. Bu pobl ifanc yn y Ganolfan Islamaidd yn Wrecsam hefyd yn trafod pwysigrwydd penodol ymgynghori â phobl ifanc yn eu cymuned gan fod ymgysylltu â henuriaid yn y mosg ddim bob amser yn arwain atynt yn derbyn y wybodaeth.

Roedd diddordeb mawr ymhlith pobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â nifer y bobl ifanc oedd yn gweithio yn y Gwasanaeth Tan ac Achub. Byddai Prifysgol Bangor yn croesawu'r Gwasanaeth yn mynychu eu digwyddiad gyrfaoedd yn y dyfodol agos ac roedd diddordeb mewn rhagor o wybodaeth gyrfaoedd ym Mhrifysgol Wrecsam. Dangosodd myfyrwyr Coleg Cambria ddiddordeb mewn gyrfaoedd gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub hefyd, gyda diddordeb mewn oedran cyfartalog diffoddwyr tân a pha mor bell y gallai diffoddwyr tân fyw o orsafoedd tân.

5.0 Gweithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

5.1.1 Ymweliadau Gorsaf

Yn dilyn cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Gorffennaf 2023, cynhaliwyd rhaglen ymgysylltu â staff i annog gweithwyr i gymryd rhan yr ymgynghoriad a dweud eu dweud.

Fel disgrifiwyd yn rhan 1, ymgynghorwyd ag aelodau o staff drwy raglen o ymweliadau gan uwch reolwyr a Phrif Swyddogion gyda gorsafoedd tân; mewn seminarau a gynhaliwyd ar gyfer rheolwyr canol a rheolwyr goruchwyllo; a thrwy sesiynau briffio gwylfeydd ar y gorsafoedd gan y swyddogion cymorth a rheolwyr canol. Defnyddiwyd sianeli cyfathrebu mewnol hefyd i helpu i godi ymwybyddiaeth arferol o'r ymgynghoriad ymhlith staff, gan gynnwys Diweddariad y Prif Swyddog Tân yn y Crynodeb Wythnosol a gwybodaeth ar y fewnwyd. Ymgysylltwyd â chyrrff Cynrychiolwyr Staff drwy'r Cyd-fforwm Ymgynghorol a chasglwyd Cwestiynau Cyffredin o ymweliadau â gorsafoedd. Cafodd y rhain eu datblygu a'u diweddarau drwy gydol y cyfnod ymgynghori a'u rhoi ar fewnwyd y Gwasanaeth.

5.1.2 Ymatebion i'r Arolwg Ymgynghori


Cwblhaodd cyfanswm o 191 aelod o staff yr arolwg ymgynghori. Mae'r tabl isod yn manylu ar nifer y gweithwyr a gwblhaodd yr arolwg ymgynghori fesul awdurdod lleol.

Tabl 5.1.2.1 – Gweithwyr yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod Lleol	Nifer o ymatebwyr
Ynys Môn	20
Conwy	54
Sir Ddinbych	43
Sir y Fflint	20
Gwynedd	30
Wrecsam	24

Wrth ystyried i ba raddau yr oedd Opsiwn 1 yn diwallu anghenion eu cymuned, roedd bron i ddau draean (65%) o'r gweithwyr yn cytuno (40% yn cytuno'n gryf a 25% yn cytuno).

Siart 5.1.2.1 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 1 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (yn ôl Gweithiwr)




Sail: pob ymatebydd heblaw 'dim ymateb' (1,533)

Roedd gweithwyr yn anghytuno'n gryf yn amlach (24%) y byddai Opsiwn 1 yn diwallu anghenion eu cymuned, o gymharu â 15% o'r rhai nad oeddent yn weithwyr yn awgrymu hyn. Nid oedd y rhai nad oeddent yn weithwyr yn cytuno nac yn anghytuno'n amlach y byddai'r opsiwn yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Fel y dangosir isod, roedd gweithwyr yng Ngwynedd yn cytuno amlaf â'r opsiwn hwn, gyda'r anghytuno mwyaf y byddai'r opsiwn hwn yn diwallu anghenion cymunedau a gofnodwyd gan weithwyr yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy.


Siart 5.1.2.2 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 1 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (Gweithwyr yn ôl lleoliad)



Sail: holl weithwyr (191)

Wrth ystyried i ba raddau yr oedd Opsiwn 2 yn diwallu anghenion eu cymuned, roedd 28% o'r gweithwyr yn cytuno (10% yn cytuno'n gryf ac 18% yn cytuno).

Siart 5.1.2.3 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (yn ôl Gweithiwr




Sail: pob ymatebydd heblaw 'dim ymateb (1,456)

Roedd cyfrannau ychydig yn uwch o weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gyffredinol yn cytuno bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion eu cymunedau, o gymharu â'r rhai nad oeddent yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth. Roedd cyfrannau tebyg o weithwyr a'r rhai nad oeddent yn weithwyr yn anghytuno'n gryf â'r opsiwn hwn, gyda chyfrannau uwch o'r rhai nad oeddent yn weithwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno.

Fel y dangosir isod, roedd gweithwyr yn Sir y Fflint yn cytuno'n amlach ag Opsiwn 2, gyda'r anghytuno mwyaf y byddai'r opsiwn hwn yn diwallu anghenion cymunedau wedi'i gofnodi gan weithwyr Wrecsam.


Siart 5.1.2.4 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 2 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (Gweithwyr yn ôl lleoliad)



Sail: holl weithwyr (191)

Wrth ystyried i ba raddau yr oedd Opsiwn 3 yn diwallu anghenion eu cymuned, dim ond 5% o'r gweithwyr oedd yn cytuno (2% yn cytuno'n gryf a 3% yn cytuno).

Siart 5.1.2.5 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 3 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (yn ôl Gweithiwr)




Sail: pob ymatebydd heblaw 'dim ymateb' (1,463)

Ar y cyfan, roedd y gweithwyr a'r rhai nad oeddent yn gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhannu barn debyg ar Opsiwn 3, gyda chyfrannau uchel yn anghytuno y byddai'r opsiwn yn diwallu anghenion eu cymunedau.

Fel y dangosir isod, roedd gweithwyr yn Sir y Fflint ac Ynys Môn yn cytuno'n amlach â'r opsiwn hwn, gyda'r anghytuno mwyaf y byddai'r opsiwn hwn yn bodloni anghenion cymunedau wedi'i gofnodi gan weithwyr Wrecsam, lle'r oedd 100% yn anghytuno.

Siart 5.1.2.6 – I ba raddau ydych chi'n meddwl bod Opsiwn 3 yn diwallu anghenion ein cymunedau? (Gweithwyr yn ôl lleoliad)



Sail: holl weithwyr (191)

Anfonodd un gweithiwr, a nododd ei fod yn 'ddiffoddwr tân ar alwad ffyddlon a balch cwbl ymroddedig' ymateb yn manylu ar ystyriaethau yr hoffai gweld yn cael eu hystyried cyn gwneud penderfyniadau pellach a allai effeithio ar rôl bresennol y staff ar alwad (a'i gontract ei hyn) gyda'r Gwasanaeth Tân. Roedd ei ymateb yn canolbwyntio ar yr hyn yr oedd yn teimlo oedd diffyg ymgynghori â gweithwyr yn y cam cyn-ymgynghori ac awgrymiadau pellach i leihau costau cyffredinol a chynyddu effeithlonrwydd ac argaeledd.

6.0 Gohebiaeth arall/cyfryngau cymdeithasol

6.1 Gohebiaeth

Derbyniwyd cyfanswm o 119 o ymholiadau/neu wrthwynebiadau l'r Adolygiad Darpariaeth Brys yn ystod y cyfnod ymgynghori. Roedd y mwyafrif o'r rhain ar ffurf e-byst gyda llai o lythyrau galwadau ffôn ac ymholiadau wyneb yn wyneb. Nod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru oedd darparu ymatebi bob gohebiaeth o fewn dau ddiwrnod gwaith yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Rhoddir crynodeb o ymholiadau cyffredinol yn y tabl isod. Manylir ar ymholiadau/gwrthwynebiadau ardal-benodol yn yr adrannau adborth perthnasol yn adran 6.3.

Tabl 6.1 – Math o ymholiad

Math o ymholiad	Nifer
Cais am becyn/copi papur o'r holiadur/PDF o'r cwestiynau	11
Cwynion/Materion gyda holiadur yr ymgynghoriad	16
Pryder ynghylch lleoliadau Digwyddiadau i ymgysylltu efo'r gymuned	4
Gwahoddiad i ymuno â chyfarfodydd/gweithdai/trefnu sesiwn i drafod	5
Ceisiadau i ymestyn y cyfnod ymgynghori	4

Fel y dangoswyd, derbyniwyd nifer o geisiadau am fersiynau papur o'r pecyn/holiaduron. Cododd un ar bymtheg o ymholiadau yn nodi problemau wrth gwblhau'r holiadur ar-lein, gyda phedwar arall yn codi pryderon ynghylch lleoliadau digwyddiadau ymgynghori. Derbyniwyd pedwar cais am estyniadau i'r dyddiad cau hefyd, gyda phum cais/gwahoddiad i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fynychu cyfarfodydd/gweithdai neu drefnu sesiynau unigol i drafod cynlluniau ymhellach. Crynhoir y camau a gymerwyd gan GTAGC yn ystod y cyfnod ymgynghori i fynd i'r afael â'r pryderon a godir yn adran 2 yr adroddiad hwn.

Mae'r Adolygiad o Ddarpariaeth Brys wedi denu sylw yn y cyfryngau drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Arweiniodd lansiad yr ymgynghoriad at ddarllediadau ar fwletinau newyddion BBC TV ac ITV yn cynnwys cyfweiliadau â Chadeirydd yr Awdurdod Tân yn ogystal â sylw ar-lein ac ar gyfryngau cymdeithasol. Cafodd erthyglau a straeon eu cyhoeddi a'u darllen yn eang mewn cyhoeddiadau ac ar-lein gan gynnwys The Leader, Nation.Cymru, Cambrian News, Wrecsam.com, Rhyl Journal, Daily Post, Herald Wales a Firefighter. Er bod rhai yn cynnwys gwybodaeth niwtral am yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys ac yn annog y cyhoeddi i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, cododd eraill ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, pryderon ynghylch gwasanaeth brys yn y dyfodol, deisebau'n cael eu lansio i achub Gorsafoedd Tân sydd mewn perygl o gau a rali a drefnwyd gan yr Undeb y Brigadau Tân yn Wrecsam. Derbyniwyd nifer o geisiadau am gyfweiliadau gan sefydliadau cyfryngau hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cadarnhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y byddent yn hapus i gynnal cyfweiliadau â Chadeirydd yr Awdurdod Tân fel cynrychiolydd y corff gwneud penderfyniadau, ond hyd nes y byddai adborth yr ymgynghoriad wedi'i ystyried a bod penderfyniad wedi'i wneud, ni fyddent yn gallu gwneud sylwadau ar ddim mwy na chynnwys yr ymgynghoriad. Cynhaliodd Cadeirydd yr Awdurdod Tân nifer o gyfweiliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer radio a theledu yn ystod yr ymgynghoriad gan annog pobl i gymryd rhan a chwblhau'r holiadur ar bob cyfle.

Cafodd sylwadau a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol eu hadolygu drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Unwaith eto, er bod rhai yn niwtral eu naws yn rhannu gwybodaeth am yr ymgynghoriad ac annog

y cyhoedd i ddweud eu dweud, roedd eraill yn cynnwys penawdau mwy negyddol ynghylch toriadau i wasanaethau, pryderon am ddiogelwch a cholli swyddi.

Mae Aelodau'r Senedd/Aelodau Seneddol a chynrychiolwyr y Pleidiau Gwleidyddol wedi gwneud sylwadau ar X (Twitter), gan annog aelodau'r gymuned i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gyda nifer yn nodi eu bod wedi ysgrifennu at Gadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn amlinellu eu pryderon. Mae sylwadau ar X (Twitter) hefyd wedi canolbwyntio ar amseroedd ymateb a chostau'r ganolfan hyfforddi newydd.

Roedd Undeb y Frigâd Dân Gogledd Cymru yn weithgar ar X (Twitter) trwy gydol y cyfnod ymgynghori, gyda nifer o negeseuon yn ymwneud â 'Achub Ein Gwasanaeth Tân ac Achub'. Roedd postiau rheolaidd yn annog pobl i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad i ddweud na wrth gau gorsafoedd, llai o injans tân, colli swyddi, gostyngiad mewn cyflenwad a risg uwch. Codwyd yr angen am opsiwn twf yma hefyd (trafodwyd yn fwy manwl yn adran 6.3.2) ynghyd â chyhoedduswyd i'r rali a drefnwyd gan Undeb y Brigadau Tân Gogledd Cymru yn Wrecsam ar y 30ain Medi.

Codwyd ceisiadau am wybodaeth hawdd ei darllen a sylwadau ar faterion technegol wrth gwblhau'r ymgynghoriad ar Facebook, ynghyd ag ymholiadau/ceisiadau am esboniad pellach o systemau megis y System Dyletswydd Amser Cyflawn yng Nghefn Gwlad.

Codwyd pryderon am ddiogelwch y gymuned gyda llai o ddarpariaeth brys mewn ardaloedd penodol mewn trafodaethau Facebook, ynghyd ag effeithiau ar ddiogelwch wrth gau gorsafoedd a rhai o'r ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn brysur iawn gyda thwristiaid. Gwnaed sylwadau ynghylch torri'n ôl mewn meysydd heblaw diffoddwyr tân ar lawr gwlad, ynghyd â phryderon ynghylch o ble y byddai staff criw dydd Corwen, Dolgellau a Phorthmadog yn dod. Gwnaethpwyd postiau gan gynghorwyr lleol hefyd yn annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad a/neu fynychu digwyddiadau ymgysylltu.

Amlygwyd deisebau lleol hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol gan annog aelodau'r cyhoedd i arwyddo. Gwnaed sylwadau cadarnhaol hefyd ar gyfryngau cymdeithasol gyda diolch am waith y gwasanaeth tân ac achub.

6.2 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Gwnaed cyfanswm o 8 Cais Rhyddid Gwybodaeth i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori, naill ai'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr Adolygiad Darpariaeth Brys neu ofyn am ddata a allai fod yn berthnasol i'r adolygiad. Roedd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth am nifer y diffoddwyr tân a gyflogir (gan gynnwys staff y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) dros gyfnodau gwahanol, nifer y gorsafoedd tân, nifer y digwyddiadau a fynychwyd, oriau a dreuliodd mewn digwyddiadau ac amseroedd ymateb ar gyfartaledd. Gofynnwyd hefyd am wybodaeth benodol am danau gwyllt a chynorthwywyr bariatrig ynghyd â gwybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Darpariaeth Brys. Diweddarodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru y Cwestiynau Cyffredin ar eu gwefan yn rheolaidd o ganlyniad i Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ymatebwyd i bob cais Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen ofynnol.

6.3 Ymatebion Ffurfiol

6.3.1 Yn gyffredinol

Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda'r Prif Swyddogion yn ystod yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r Adolygiad Darpariaeth Brys. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi'u crynhoi yn y tabl isod. Er bod rhai wedi'u trefnu drwy wahoddiadau rhagweithiol, trefnwyd eraill mewn ymateb i geisiadau penodol.

Tabl 6.3.1.1 – Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori

Dyddiad yManylion y cyfarfod cyfarfod	
10.8.23	Janet Finch-Saunders MS/AS & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
11.8.23	Derek Walker, Comisiynydd Cenhedlau'r Dyfodol & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân (Yn yr Eisteddfod)
18.8.23	North Wales Conservative MP's meeting (trefnwyd gan Robin Millar MP) & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
29.8.23	Neal Cockerton, Prif Weithredwr, Sir y Fflint & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
30.8.23	Rhun ap Gareth, Prif Weithredwr Conwy & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
1.9.23	Dr James Davies MP, Vale of Clwyd & Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
4.9.23	Briefing with Informal Cabinet, Rhyl, Denbighshire – Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur
6.9.23	Wrecsam All Members Workshop re ECR Presentation – Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
6.9.23	Flintshire Council Members re ECR Presentation – Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
12.9.23	Cyfarfod Tîm Rheoli Cyngor Gwynedd – Ymgynghoriad ECR – Dawn Docx, Prif Swyddog Tân
19.9.23	Cabinet Anffurfiol Conwy – Cyflwyniad ECR - Dawn Docx, Prif Swyddog Tân & Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur
21.9.23	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau (Cyfarfod arebennig) – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur & Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol Millington
26.9.23	Cyfarfod ar-lein gyda Gareth Davies AS/MS and Dawn Docx, Prif Swyddog Tân

Darparodd Cangen Gogledd Cymru o Gymdeithas Genedlaethol Diffoddwyr Tân Wedi Ymddeol ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, ynghyd ag adborth ychwanegol ac ymatebion/adborth manwl gan aelodau unigol. Fel grŵp teimlent fod y broses ymgynghori yn ddiffygiol. Yn eu barn nhw 'mae llawer o wybodaeth wedi'i chadw'n ôl rhag y cyhoedd felly ni allant roi ymateb gwybodus; roedd y methiant i gynnwys Undeb y Brigadau Tân ar ddechrau'r adolygiad yn gamgymeriad sylfaenol; ac o ystyried yr ymateb rhagorol dros gadw'r ail bwmp yn Wrecsam, dylid gwrthod y cynnig i'w symud ar unwaith." Codwyd gofyniad i'r ymgynghoriad gael ei ohirio am flwyddyn er mwyn rhoi syniad clir i bobl Gogledd Cymru o'r hyn y byddai toriadau gweithredol yn ei olygu iddynt mewn termau go iawn. Roedd Cangen Gogledd Cymru o Gymdeithas Genedlaethol Diffoddwyr Tân Wedi Ymddeol hefyd o'r farn, pe bai'r adolygiad yn mynd yn ei flaen, y byddent yn rhoi eu cefnogaeth lawn i'r opsiwn twf a gynigir gan Undeb y Brigadau Tân (trafodwyd yn rhan 6.3.2).

Derbyniwyd a recordiwyd neges bellach gan aelod o Gymdeithas Genedlaethol Diffoddwyr Tân Wedi Ymddeol nad oedd yn gallu mynychu'r digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus yn Sir Ddinbych. Roedd yn rhannu'r farn y 'dylai holl aelodau'r Awdurdod Tân fod yn mynd ar drywydd y mater hwn gyda'r cyhoedd yn eu hardaloedd eu

hunain o ystyried difrifoldeb y cynigion ar gyfer lleihau'r gwasanaeth tân'. Gofynnodd hefyd 'y dylid gohirio'r mater am flwyddyn er mwyn caniatáu i'r aelodau gysylltu â'u hetholwyr'.

Trefnodd Gavin Roberts ddeiseb o'r 1af Medi 2023 hyd at 30ain Medi 2023. Mae'r ddeiseb wedi'i chyfeirio at y Senedd ac mae'n nodi: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghyd â'r Awdurdod Tân yn bwriadu israddio Gorsafoedd y Rhyl a Glannau Dyfrdwy o Orsafoedd 24 awr i Orsafoedd â staff dydd gan adael y Gorsafoedd yn wag dros nos. (Opsw'n 2). Ar hyn o bryd mae 3 Gorsaf Amser Cyflawn yng Ngogledd Cymru, Wrecsam, Glannau Dyfrdwy ac Y Rhyl. Maent yn cael eu staffio 24/7. O dan y cynigion presennol byddai'r Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn cael eu hisraddio i Orsafoedd â staff dydd, gan ddibynnu ar bersonél ar alwad yn ymateb o gartref yn y nos. Rhagwelir y gall yr oedi fod cymaint ag 8-10 munud. Mewn tân mae pob eiliad yn cyfrif a bydd hyn heb os yn achosi anafiadau a hyd yn oed marwolaethau. Cofnododd y rhaglen 1,937 o lofnodion. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys adran ar ddeisebau yn yr adran Cwestiynau Cyffredin (FAQs) ar y wefan.

Derbyniwyd llythyr gan Hannah Blythyn AS/MS, y Dirprwy Weinidog dros Bartneriaeth Gymdeithasol ynghylch yr ymgynghoriad. Er ei bod yn cydnabod nad lle Llywodraeth Cymru oedd cymryd safbwynt cyhoeddus ar yr opsiynau ymgynghori, roedd wedi cytuno i gyfleu pryderon a dderbyniodd gan Undeb y Brigadau Tân. Nododd fod amseriad yr ymgynghoriad wedi'i godi, gyda'r farn nad oedd yr amserlen yn caniatáu digon o ymgysylltu â'r gweithlu na'r cymunedau yr effeithir arnynt gan y cynigion ac awgrymodd fod hyn hefyd wedi'i godi gyda hi gan gynrychiolwyr etholedig o Ogledd Cymru. Roedd yn awyddus i weld y Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau mewn deialog ystyrlon gyda chynrychiolwyr undebau ac ymgynghoreion yn y gobaith y byddai canlyniad teg a rhesymol yn cael ei gyrraedd a oedd yn dderbyniol i bawb, gan gynnwys y gweithlu.

Derbyniwyd e-bost gan Llŷr Gruffydd AS/MS, Gweinidog yr Wrthblaid dros Faterion Gwledig ynghylch yr ymgynghoriad. Er ei fod yn diolch i'r gwasanaeth tân am eu gwaith yn cadw cymunedau'n ddiogel dros y flwyddyn ddiwethaf, mynegodd ei wrthwynebiad i'r tri opsiwn a gynigiwyd ar gyfer yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys ar draws Gogledd Cymru. Er ei fod yn croesawu'r bwriad i ehangu gwasanaethau mewn rhannau o'r Gorllewin, ni theimlwyd y dylid gwneud hyn ar draul colli swyddi a phrofiad allweddol yn y Dwyrain. Nododd ymwybyddiaeth o'r cynigion amgen a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân a'i fod yn gobeithio y byddai'r Awdurdod Tân yn ystyried opsiynau 4 a 5 Undeb y Brigadau Tân yn eu cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Jason Hibbert, Cynrychiolydd Awdurdod Gweinyddol Twneli ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn amlinellu'r pryderon y byddai'r opsiynau a gyflwynwyd yn yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys, a'r rhagolygon canlyniadol o leihad mewn capasiti o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ei gael ar ymateb. Roedd y llythyr yn cyfeirio at Gynllun Corfforaethol GTAGC 2021-24 gyda saith amcan tymor hir i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol, gyda'r rhain yn gysylltiedig â'r saith nod llesiant a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ei farn ef, mae cynnal ac atgyfnerthu amcan 5 y cynllun yn hollbwysig – 'cynnal gweithlu sy'n ddigon gwydn, medrus, proffesiynol a hyblyg'. Mae'r llythyr yn datgan gwrthwynebiad cryf i Opsw'n 3 (gan gynnwys cau gorsaf dân Conwy) ac er nad yw'n ymddangos bod Opsw'n 1 a 2 yn cael yr un effaith yn ei farn ef, 'dymunai weld sicrwydd y gall y gwasanaeth ddarparu'r presenoldeb gofynnol o fewn yr amserlen bresennol a chydag adnoddau digonol ar gyfer digwyddiadau o fewn twneli'.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Sam Rowlands AS, Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru, yn croesawu'r penderfyniad i ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r Adolygiad o Ddarpariaeth Brys ac yn cymryd eu barn i ystyriaeth. Mynegwyd pryder gan etholwyr ynghylch symud peiriant tân o Wrecsam, gyda'r llythyr yn nodi, 'Wrecsam yw un o ganolfannau poblogaeth fwyaf Gogledd Cymru ac mae'n hanfodol bod y Gwasanaeth Tân

yn parhau i fod ag adnoddau da yn yr ardal hon'. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch y gostyngiad arfaethedig mewn lefelau staffio yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy gyda'r farn bod 'gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn gwasanaethu ardaloedd poblog iawn, ac rwy'n siŵr y byddai'r cyhoedd yn disgwyl i'r gorsafoedd hyn gael eu staffio 24 awr y dydd'. Er ei fod yn gwerthfawrogi bod recriwtio yn parhau i fod yn broblem, mae'n gobeithio y bydd 'dyhead i recriwtio mwy o staff ac osgoi gostyngiad arfaethedig mewn niferoedd'.

Darparodd nifer o'r rhai a oedd wedi cael anhawster i gwblhau'r holiadur ar-lein ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad (fel y trefnwyd/cytunwyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru). Roedd y rhain yn cynnwys dau aelod o'r cyhoedd o Gerrigydrudion yn datgan eu cefnogaeth i Opsiwn 1 a phreswlydd o'r Rhyl yn gwrthwynebu'r holl opsiynau a gynigiwyd. Mynegwyd pryder gan ymatebwr arall bod yr opsiynau a gynigiwyd yn 'rhoi bywydau pobl mewn perygl', gyda thrafodaeth ar faterion yn cynnwys damweiniau traffig ar y ffyrdd, llifogydd, risgiau tân sy'n gysylltiedig â gwersylloedd gwyliau a thanau diwydiannol, a'r angen am fwy o ddiffoddwyr tân. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch recriwtio graddedigion yn syth i'r gwasanaeth tân. Gofynnodd ymatebydd pellach i adolygiad o rolau cymorth gael ei gynnal cyn i unrhyw swyddi gweithredol gael eu colli neu eu hail-ddynodi, gyda'r farn bod 'GTAGC wedi gweld twf mewn rolau nad ydynt yn rhai rheng flaen ac eto mai'r opsiwn cyntaf o dorri costau yw cael gwared ar swyddi gweithredol pellach'. Teimlai hefyd fod angen 'dadansoddiad cynhwysfawr o pam mae argaeledd wedi newid ers 2000' ynghyd ag ystyried pam fod recriwtio a chadw yn peri heriau. Nodwyd yma hefyd gefnogaeth i'r Awdurdod Tân wrth ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân.

6.3.2 Cyrff Cynrychioliadol

Fel y trafodwyd yn adran 6.1, mae Undeb y Brigadau Tân Gogledd Cymru wedi bod yn weithgar drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Yn eu barn hwy, nid yw'r un o'r opsiynau ymgynghori presennol yn sicrhau gwelliant cyfanwerthol o ran darpariaeth brys ar draws holl gymunedau Gogledd Cymru, ac nad ydynt yn dod heb gost ac amhariad. Maen nhw'n mynegi pryder nad yw'r opsiynau ymgynghori yn cyd-fynd â'r nod gwreiddiol o wella'r gwasanaeth brys ar draws Gogledd Cymru ac o'r farn na chafodd y cyhoedd a chyrrff cynrychioli gweithwyr eu cynnwys i helpu i lunio a chyfrannu at yr opsiynau.

O ganlyniad, mae Undeb y Brigadau Tân Gogledd Cymru wedi cyflwyno cynnig o'r enw 'Gweledigaeth ar gyfer gwelliant a thwf, nid opsiynau o ddirywiad', sy'n cynnig dau opsiwn y teimlant y gallent sefydlu a chynnal 3 gorsaf â Staff Dydd a chadw'r fformiwla brofedig yn y Rhyl a Glannau Dyfrdwy heb ei newid. Un o'r cynigion yw opsiwn 'Twf a Buddsoddiad' sy'n golygu defnyddio adnoddau staff presennol ynghyd â chreu 23 o swyddi ychwanegol. Yn eu barn nhw, 'byddai'r safbwyntiau hyn yn caniatáu creu 3 gorsaf Wledig newydd yn annibynnol, gan roi hwb i bartneriaethau cymdeithasol, cydlyniant cymdeithasol a buddsoddiad, gwella lles cymunedol ac yn bwysig, mae'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015'. Maent hefyd yn nodi bod y ddau opsiwn ychwanegol yn cynyddu nifer yr aelwydydd a fydd yn derbyn ymateb o fewn 20 munud.

Fel y trafodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi darparu cyfleoedd i'r Undeb y Brigadau Tân gyflwyno'r opsiynau amgen i Swyddogion fel rhan o'r Ymgynghoriad ar yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys, ond ar adeg ysgrifennu hwn nid oedd yn bosibl i swyddogion Undeb y Brigadau Tân fod yn bresennol.

Mae Undeb yr Undeb y Brigadau Tân wedi cyfarfod â Chadeirydd yr Awdurdod Tân a'r Dirprwy Gadeirydd i drafod yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys ac wedi'u gwahodd i gyfarfod o Weithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (ECR) yr Awdurdod Tân yn ystod mis Tachwedd i gyflwyno eu 2 opsiwn.

Mae'r adrannau isod yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar feysydd penodol, gan gynnwys llythyrau gan Aelodau Seneddol/Aelodau o'r Senedd, adborth/ymatebion ffurfiol y cyngor, deisebau a chynigion a godwyd.

6.3.3 Ynys Môn

Cyflwynodd Cyngor Sir Ynys Môn ymateb i'r ymgynghoriad ar ôl i'r opsiynau gael eu hystyried yn ffurfiol a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ddydd Mawrth 26 Medi. Fel 'awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac fel ymatebwr categori 1, mae'r Cyngor yn chwarae rhan hanfodol mewn cydnerthedd sifil a rhaid iddo sicrhau parodrwydd digonol ar gyfer argyfyngau'. Buont yn trafod gweithio 'ochr yn ochr â'r gwasanaethau brys ac ymatebwyr categori 1 eraill a gwerthfawrogi a deall yn llawn pwysigrwydd y gwasanaeth a'r heriau a wynebir'. Mae'r ymateb yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi eu 'hymrwymadau parhaus a'u hymdrechion i gydweithio'n effeithiol, wrth gydnabod bod yr heriau ariannol presennol yn ansicr ac yn ymestynno!' a hefyd yn 'cydnabod yr anawsterau o ran cynllunio, darparu a chynnal gwasanaethau statudol craidd mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol'. Mae'r ymateb yn nodi bod mwyafrif y cyllid ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei dderbyn ar ffurf ardoll gan yr Awdurdodau Unedol o fewn yr ardal, gydag unrhyw newid o ganlyniad yn effeithio ar gyfraniadau ardoll, gan arwain at bwysau ychwanegol ar gyllideb y Cyngor, a rhaid i'r Cyngor leihau cyllidebau gwasanaethau eraill neu gynyddu cyllid drwy drosglwyddo'r gost ychwanegol i drigolion yr Ynys drwy gynyddu Treth y Cyngor. Wrth ystyried yr opsiynau yr ymgynghorwyd arnynt, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi 'na fydd unrhyw effaith nac effaith o gynnal y trefniadau presennol na newid i opsiynau 1 a 2' ac er y byddai opsiynau 1 a 2 yn costio mwy, 'i gynnal y trefniadau presennol, byddai lefel y gwasanaeth, os yw'n gyraeddadwy yn ariannol, yn ganlyniad dymunol'. Yn eu barn hwy, byddai cau, neu ddiffyg argaeledd, yr orsaf dân ym Miwmares yn golygu y byddai'n cymryd mwy o amser i'r adnodd nesaf sydd ar gael mynd i argyfwng. Codwyd materion ynghylch diffyg argaeledd mewn gorsafoedd cyfagos, ynghyd â thagfeydd a diffyg gwytnwch ar gyfer croesfannau'r Fenai, gyda Chyngor Sir Ynys Môn yn dweud eu bod 'felly yn gwrthwynebu cau Gorsaf Dân Biwmares fel y'i cynhwyswyd yn opsiwn 3'. Mynegwyd pryderon hefyd yn eu hymateb nad oedd yr ymgynghoriad yn trafod, yn ystyried nac yn gwrthwynebu unrhyw newid i gostau canolog rhedeg y gwasanaeth. I grynhui, mae Ynys Môn yn 'cadarnhau safbwynt y Cyngor bod yn rhaid i ffocws yr adolygiad fod ar warchod gwasanaethau rheng flaen yn yr hinsawdd economaidd bresennol a bod angen ystyried gweithredu arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill o fewn y strwythur gweithredu ac arferion gwaith Awdurdod Tân Gogledd Cymru, h.y. costau canolog, costau hyfforddi ac ati. Mae angen rhagor o fanylion, ystyriaeth a thrafodaethau ynghylch y strwythur gweithredu ehangach a chyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd.' Mae'r Cyngor yn gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gynnal adolygiad o'u costau gweinyddol a chanolog fel sail ar gyfer gosod y cyfraniad ardoll gan ymgorffori mewnbyn y Swyddogion Adran 151 yng Ngogledd Cymru.'

Cyflwynwyd deiseb o'r enw 'Save Our Station' yn nigwyddiad ymgysylltu efo'r cyhoedd ym Miwmares (14eg Medi 2023) gan Dai Ifor Evans-Jones, diffoddwyr tân yng ngorsaf dân Biwmares. Roedd 1,448 o bobl wedi llofnodi'r deiseb. Er bod y ffocws ar Fiwmares, tynnodd sylw hefyd at beidio â chau unrhyw un o'r pum gorsaf y cynigir eu cau yn opsiwn 3.

Derbyniwyd tri e-bost hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori yn gwrthwynebu/yn cwestiynu cau Gorsaf Dân Biwmares, gan gynnwys e-bost ar ran Virginia Crosbie AS yn gofyn am ragor o wybodaeth am gynlluniau i gau Gorsaf Dân Biwmares.

Yn dilyn e-bost gan Gyngor Tref Biwmares yn mynegi pryderon ac yn gofyn am gyfarfod lleol, cynhaliwyd Digwyddiad Ymgysylltu efo'r Cyhoedd ychwanegol ym Miwmares ar 14eg Medi. (gweler adran 4.1).

6.3.4 Conwy

Cyflwynwyd deiseb yn Nigwyddiad Ymgysylltu efo'r cyhoedd yng Nghonwy (12fed Medi 2023) gan drigolion Cyffordd Llandudno. Cyflwynwyd y ddeiseb gan y Cynghorydd P A Owens, Cyngor Tref Conwy, gyda 41 o lofnodion yn mynegi pryder ac yn anghytuno â chau gorsaf dân Conwy.

Nodwyd nad oedd trigolion sy'n llofnodi'r ddeiseb yn nalgylch Gorsaf Dân Conwy yn gallu cwblhau'r arolwg electronig ac felly trefnwyd i Swyddog EDI Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gwrdd â thrigolion yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 25ain Medi i helpu i gwblhau'r holiadur ymgynghoriad ar-lein neu gopi caled.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gwennol Ellis, Cynghorydd Sir, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn datgan 'mae trigolion Uwch Aled yn mynegi pryder ac anfodlonrwydd dwys ynglŷn â'r bwriad i gau Gorsaf Dân Cerrigydrudion o dan Opsiwn 3 yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys i weithredu mesurau arbed costau'. Mae'r ymateb yn herio ystadegau a ddarparwyd ac yn cwestiynu'r ffactorau a ddylanwadodd ar y penderfyniad hwn, yn hytrach na chau gorsafodded eraill. Disgrifiwyd Criw Tân Cerrigydrudion fel 'yn cynnwys unigolion lleol sy'n meddu ar wybodaeth helaeth o'r rhanbarth', gyda'r farn y byddai 'amddifadu Uwch Aled o'i orsaf dân yn golygu bod yr ardal gyfan yn agored iawn i niwed a thebygolrwydd cynyddol o golli bywyd.' Yn ei barn hi, 'wrth gydnabod yr angen am arbedion ariannol, mae'n hanfodol meddwl yn ofalus i gadw bywydau dynol cyn ystyriaethau ariannol'.

6.3.5 Sir Ddinbych

Roedd Cyngor Sir Ddinbych yn dymuno 'rhoi ar gofnod y gwerth y mae'n ei roi ar y gwasanaeth a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'i edmygedd o ymroddiad a dewrder ei ddiffoddwyr tân'. Mae'r Cyngor o'r farn bod yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys wedi 'nodi'r risgiau cywir ac mai amddiffyn bywyd ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf', gyda'u barn y 'dylai gwasanaeth brys fod yn ystyriaeth hollbwysig wrth benderfynu ar yr opsiwn i'w gymryd ymlaen'. Nododd Cyngor Sir Ddinbych fod opsiwn 'dim newid' wedi'i ddiystyru cyn i ymgynghoriad ffurfiol ddechrau. Er bod y Cyngor yn 'cefnogi'n gryf y cynnig i gael gorsaf gyda staff dydd yng Nghorwen yn darparu gwell ymateb yn Ne'r Sir', mae'r Cyngor yn 'bryderus iawn am y bwriad i golli'r system dyletswydd 24 awr yng ngorsaf dân Y Rhyl, a'r risg canlyniadol a all godi'. Gan fod y newidiadau arfaethedig i system ddyletswydd Gorsaf Dân Y Rhyl yn rhan o'r tri opsiwn yr ymgynghorwyd arnynt, mae Cyngor Sir Ddinbych yn awgrymu 'nad yw'n gallu cefnogi unrhyw un ohonynt a byddai'n edrych ymlaen at weld opsiwn sy'n cynnal y trefniadau 24 awr sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Y Rhyl.'

Cyflwynodd Cyngor Tref Y Rhyl lythyr yn codi pryderon sylweddol ynghylch y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn Adolygiad o Ddarpariaeth Brys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ddweud ei bod yn ymddangos bod y cynigion yn dymuno mynd i'r afael â'r angen i ddarparu cyflenwad digonol mewn rhai ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru ar draul ar draul safonau hir sefydlog yn Y Rhyl (a Glannau Dyfrdwy) sydd wedi'u profi i leihau marwolaethau oherwydd tân.' Mynegwyd pryder y gallai'r cynigion 'gael eu gweld fel ffordd o geisio arbedion ariannol yn hytrach na chyflawni'r nod o wella diogelwch' ar draws Y Rhyl a rhanbarthau cyfagos. Cydnabu'r cyngor lwyddiant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i gyflawni dim marwolaethau oherwydd tân y llynedd, ond mae'n teimlo y byddai'r opsiynau a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad yn rhoi hyn 'dan fygythiad wrth symud ymlaen' ac felly mae'n galw ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ailystyried y cynigion hyn.

Crynhodd Cyngor Tref Llangollen eu hymateb i opsiynau ar gyfer ymateb brys i'r dyfodol gan nodi 'Mae'r Cyngor Tref yn credu mai prif bryder Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddylai fod darparu gwasanaethau yn seiliedig ar asesiad risg lleol o'r galw beth bynnag fo'r gost'.

Derbyniwyd llythyr gan Gareth Davies AS/AS ar gyfer Dyffryn Clwyd yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig. Codwyd pwyntiau ar ran etholwyr ynghylch effaith y newidiadau arfaethedig ar y gwasanaeth presennol i gymuned Dyffryn Clwyd a'i risg ymddangosiadol i'r fenter ehangach o ddarparu ymateb brys teg, cynaliadwy a chyfartal ar draws Gogledd Cymru. Mynegwyd pryder ynghylch cael gwared ar y gwasanaeth 24 awr, eiddo a llety yn ardal Y Rhyl, yn anffodus, nad oedd ganddynt ddigon o offer canfod tân a mwg ac effaith negyddol bosibl y newidiadau arfaethedig ar drefniadau diogelwch, llesiant, gwaith a bywyd gweithwyr a thrigolion yn Nyffryn Clwyd. Nodwyd hefyd nad oedd aelodau'r cyhoedd wedi cael system ymgynghori'r Awdurdod yn hawdd i'w llywio, a oedd yn codi pryder ynghylch nifer y cyhoedd a fyddai'n gallu dweud eu dweud ar y newidiadau arfaethedig i adnoddau presennol o fewn yr amserlen a neilltuwyd.

Yn dilyn cyfarfod ar 1 Medi 2023, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybodaeth ychwanegol ac eglurhad i Dr James Davies AS, Dyffryn Clwyd, ynghylch data digwyddiadau, argaeledd criwiau a digwyddiadau lle'r oedd angen mwy nag un peiriant yn Y Rhyl, a gwybodaeth am gymorth ar y cyd gan ardaloedd cyfagos. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Dr James Davies AS ymateb 'o safbwynt y rhanbarth yn ei gyfanrwydd, ond yn arbennig gyda ffocws ar yr effaith y gallent (y cynigion) ei chael ar ardal Sir Ddinbych'. Roedd yn cefnogi 'yr awydd i sicrhau bod y cyflenwad yn decach ac yn adlewyrchu anghenion amrywiol y rhanbarth' ac felly gallai 'weld gwerth Dewisiadau 1 a 2 o safbwynt cyflwyno mwy o ddarpariaeth yn ne Sir Ddinbych'. Fodd bynnag, roedd ei ymateb yn awgrymu ei fod 'yn naturiol siomedig bod pob un o'r tri opsiwn a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad yn arwain at ddiffyg darpariaeth drwy orsaf Y Rhyl'. Mae'r ymateb yn nodi 'mae'n amlwg bod cyllid yn sbardun allweddol ar gyfer yr opsiynau sy'n cael eu trafod yn yr adolygiad ac mae hyn yn anochel'. Er bod cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn peri anhawster i ddeiliaid tai (yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni), mae'n deall 'i GTAGC, mae pwysau chwyddiant ynghyd ag awydd i wella darpariaeth yn peri heriau mawr'. Mae'n nodi fodd bynnag y bydd yn anodd cyfiawnhau gofyn i drethdalwyr lleol am gyfraniadau uwch, os 'yw'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig yn yr ardal gyfagos i fod yn israddol'. Codwyd pryderon yn yr ymateb ynglŷn â'r dyhead i GTAGC gynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwylans, gyda'r farn 'nad cyfrifoldeb y Gwasanaeth Tân yw digolledu am gamreolaeth Llywodraeth Cymru o'r Gwasanaeth Ambiwylans a darpariaeth y GIG'. Codwyd pryderon hefyd ynghylch effaith newidiadau o ran adleoli ac effeithiau ar ansawdd bywyd staff, ynghyd â'r angen i GTAGC 'ystyried y cyflenwad o Wasanaethau Tân ac Achub cyfagos ac i'r gwrthwyneb'. O ran yr opsiynau ar gyfer ymgynghori, mynegwyd pryder ynghylch y ddibyniaeth ar staff wrth gefn gyda'r nos yn Opsiwn 2, gyda hyn yn cael ei weld fel risg gyda 'lefel sylweddol o alw yn ystod y nos'. Yn ei farn ef nid yw 'Opsiwn 3 yn gynnig hyfyw', gyda'r opsiwn hwn yn dal i gostio mwy i'r trethdalwr am wasanaeth llai. Byddai Dr James Davies AS hefyd yn awyddus i weld gwrthgynigion yr Undeb y Brigadau Tân yn cael eu hystyried.

Derbyniwyd llythyr gan Darren Millar AS, Ceidwadwyr Cymreig Gorllewin Clwyd, yn gwrthwynebu'n gryf bob un o'r tri opsiwn yn y ddogfen ymgynghori ar y sail y byddent i gyd yn arwain at leihad yn y ddarpariaeth yng Ngorsaf Tân Y Rhyl. Ar ôl trafod cynigion gyda diffoddwyr tân lleol, roedd yn deall bod opsiynau eraill (yn eu barn broffesiynol) a 'byddai'n annog yr Awdurdod Tân i ystyried yr opsiwn arall fel mater o frys'.

6.3.6 Sir y Fflint

Derbyniwyd llythyr gan Neal Cockerton, Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint, yn diolch i'r Prif Swyddog Tân a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyo MacArthur am fynychu Cyngor Sir y Fflint ar 6ed Medi (gweler tabl 6.3.1.1) i

esbonio'r ymgynghoriad. Trafodwyd Sir y Fflint, sef sir fwyaf poblog Gogledd Cymru, i fod â'r angen mwyaf am gyflenwad tân ac i gyfrannu fwyaf at gyllid yr Awdurdod. Mae Cyngor Sir y Fflint 'yn awyddus iawn i gadw'r amseroedd ymateb presennol fel nad yw ei drigolion yn cael eu rhoi mewn perygl.' Ar ôl ystyried yr holl ffactorau a thrafodaethau, mae'r llythyr yn adrodd bod cefnogaeth aruthrol ymhlith y cynghorwyr a oedd yn bresennol i Opsiwn 1. Fodd bynnag, mewn perthynas â newid patrymau sifft gorsaf dân Glannau Dyfrdwy a'r effaith ar lefelau ymateb, 'byddai cynghorwyr yn ceisio sicrwydd ynghylch y recriwtio ychwanegol (os o gwbl) a fyddai'n cael ei roi ar waith i sicrhau bod lefelau gwirfoddoli'n parhau i fod yn ddigonol i sicrhau lefelau o gyflenwi sydd o leiaf yn gyfartal â'r rheini ar hyn o bryd'. Roedd Undeb y Brigadau Tân hefyd wedi cysylltu â chynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint o'r Awdurdod ynghylch pedwerydd opsiwn a byddai'r cyngor yn awyddus i ATAGC drafod hyn yn fanylach gydag Undeb y Brigadau Tân. Mynegwyd pryder hefyd gan Gyngor Sir y Fflint ynghylch y ffrwd ariannu ar gyfer yr Awdurdod gyda hyn yn codi ardoll ar y cynghorau cyfansoddol yn hytrach na chyhoeddi praesept mewn modd tebyg i'r Heddlu. Nid yw cyllid felly yn dryloyw, a gwelir ei fod wedi arwain at yr Awdurdod yn dod dan bwysau gan gynghorau cyfansoddol i leihau costau, fel nad ydynt hwy yn eu tro yn cael eu gorfodi i gynyddu'r dreth gyngor. Fodd bynnag, mae Sir y Fflint yn nodi eu bod yn y gorffennol wedi nodi'r swm o arian ar gyfer yr Awdurdod sy'n cael ei gynnwys o fewn unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor, ac yn credu bod eu 'preswylwyr yn gwerthfawrogi gwaith yr awdurdod ac yn barod i'w gefnogi'n ariannol er mwyn parhau derbyn lefelau uchel o wasanaeth'.

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Shotton yn manylu ar eu pryder o glywed am yr opsiynau ymgynghori ar gyfer y gwasanaeth tân fydd yn effeithio ar Orsaf Dân Glannau Dyfrdwy. Mae'r llythyr yn nodi 'Mae cynghorwyr yn gwerthfawrogi'r heriau ariannol yr ydych yn eu hwynebu ac yn gwerthfawrogi y byddai staff o'r gwasanaeth yn cael eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig eraill, ond ar ran y gymuned gofynnwn ichi ailystyried y cynnig hwn. Mae'r Cyngor yn credu y bydd unrhyw un o'r opsiynau arfaethedig yn cael effaith andwyol ar Lannau Dyfrdwy a'r ardaloedd cyfagos ac rydym yn erfyn arnoch i ailystyried y cynlluniau i newid Glannau Dyfrdwy i griw staffio dydd yn unig. Mae'r cyngor wedi darllen y dogfennau ategol ac yn cydnabod yr ystadegau ond mae ganddyn nhw a'r gymuned bryder gwirioneddol ac yn poeni am ôl-ffeithiau'r penderfyniad posibl hwn. A oes unrhyw ymarferoldeb o gwbl i gadw criw nos yng Nglannau Dyfrdwy os gwelwch yn dda?'

Derbyniwyd llythyr gan Mark Tami AS, Alun a Glannau Dyfrdwy, ynglŷn â'r ymgynghoriad gyda'r farn bod y tri opsiwn a ddarparwyd yn golygu bod trigolion yn cael eu gofyn i ddewis yr opsiwn 'lleiaf gwaethaf' a bod angen cynnig opsiwn arall sef 'yn gwella ac nid yn lleihau'r gwasanaeth i'r holl fusnesau a theuluoedd yn Alun a Glannau Dyfrdwy'. Mynegodd bryder ynghylch lefelau amddifadedd yn ei etholaeth, ynghyd â chyfeiriad at boblogaeth sy'n heneiddio a niferoedd cynyddol o Dai Amlfeddiannaeth. Yn ei farn ef, byddai peidio â chael staff yng ngorsaf dân Glannau Dyfrdwy gyda'r nos a dibynnu ar staff rhan amser yn gwneud hyn fel ail swydd yn 'cael effaith' ar staff rhan amser, gan arwain at broblemau recriwtio o bosibl. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch gwariant arfaethedig ar y cyfleuster hyfforddi yn Llanelwy.

Roedd llythyr gan Jack Sargeant MS/AS (Alun a Glannau Dyfrdwy) hefyd yn codi pryderon am effaith newidiadau ar safle Glannau Dyfrdwy a'r effeithiau ar y gymuned ehangach. Hefyd gwnaed cais i ymestyn yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau cymaint o ymatebion â phosibl, ynghyd â chais i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru weithio gydag Undeb y Brigadau Tân Gogledd Cymru i ystyried yr opsiynau ychwanegol a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân.

Cododd Mark Isherwood, Aelod o'r Senedd, bryderon gan weithwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac etholwyr ynghylch newidiadau arfaethedig i'r ymateb i dân nad yw'n gwella ymateb. Cyfeiriwyd hefyd at yr

opsiynau ychwanegol a gynigiwyd gan Undeb y Brigadau Tân, cynlluniau ar gyfer y cyfleuster hyfforddi newydd yn Llanelwy a dulliau gweithredu eraill a ddefnyddir yn y gwasanaethau tân ac achub cyfagos.

6.3.7 Gwynedd

Croesawodd Cyngor Gwynedd y cyfle i gyflwyno barn ac adborth i'r adolygiad ar ddyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru a chyflwynodd ymateb ffurfiol. Maent yn llwyr gefnogi'r nod o fod "yn y lle iawn, ar yr amser iawn gyda'r sgiliau cywir". Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu'r cynnig a wnaed yn Opsiwn 3, sy'n argymhell cau gorsafoedd ar alwad yn Abersoch a Llanberis, yn ogystal â Biwmares, Cerrigydrudion a Chonwy. Yn eu barn nhw 'byddai cau dwy orsaf ar alwad o fewn y Sir yn golled enfawr ac ym marn y Cyngor yn tansailio'r nod o allu ymateb yn brydlon i alwadau brys mewn rhai mannau yng Ngwynedd'. Mae'r bwriad o fewn pob un o'r tri opsiwn i sefydlu gorsafoedd tân dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael eu 'hystyried yn gam allweddol sy'n cryfhau'r gallu i wireddu'r nod i ymateb yn gyflym i alwadau yn yr ardaloedd dan sylw'. O safbwynt gwella gwasanaethau, mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi Opsiynau 1 a 2 i wireddu'r nod hwn heb gau gorsafoedd ar alwad lleol. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn nodi'r costau uwch sy'n gysylltiedig ag Opsiynau 1 a 2 ac mae'n pryderu am lefel y cynnydd mewn treth fydd ei angen i weithredu'r newid. Yng nghyd-destun cost, 'mae'r Cyngor yn nodi bod nifer y swyddogion ar strwythur uwch reolwyr Awdurdod Tân ac Achub rhanbarthol yn ymddangos yn uchel o gymharu ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill ledled Cymru a Lloegr' ac mae'n awgrymu o safbwynt y trethdalwr yng Ngwynedd bod 'y Cyngor yn credu y byddai'n synhwyrol i'r Awdurdod Tân bwysu a mesur y gost reoli honno ochr yn ochr â'i allu i ddarparu'r gwasanaeth rheng flaen yr hoffai ei gyflawni'. I grynhoi, mae Cyngor Gwynedd 'yn gefnogol i'r nod o wella gwasanaethau ymateb brys ac yn awyddus i weld gorsafoedd tân â staff dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael eu sefydlu ond nid ar draul cau'r gorsafoedd tân ar alwad yn Abersoch a Llanberis, wrth gynnig ymhellach ei bod yn bosibl ystyried lleihau'r cynnydd a ragwelir yn yr ardoll ar gyfer treth 2024-25 drwy adolygu gofynion uwch reolwyr a threfniadau gweinyddol o fewn yr Awdurdod Tân'. Roedd Cyngor Gwynedd hefyd yn ymwybodol o gynigion amgen a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân ac yn datgan eu cefnogaeth i drafod cynigion amgen gyda chynrychiolwyr yr undeb i barhau yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Derbyniwyd llythyr gan Catrin Wager (Ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer ward Bangor Aberconwy) gan gynnwys deiseb gyda'r ffocws ar 'gwrthodwch Opsiwn 3 a dywedwch na i'r golled o 74 o ddiffoddwyr tân rheng flaen a chau 5 gorsaf fel nodir yn yr opsiwn yma'. Llofnododd 427 o bobl y ddeiseb hon a gwnaed yn glir' nad yw'r cyhoedd yn dymuno gweld gostyngiad sylweddol yn y gwasanaethau.' Nododd y llythyr y 'cyflawniad anhygoel' o Wasanaeth Tân ac Achub gyda'r un farwolaeth o ganlyniad i dân dros y flwyddyn ddiwethaf a'r dymuniad i gynnal a chadw hyn gydag unrhyw fodel gwasanaeth newydd. Awgryma'r llythyr 'Byddai opsiwn 3 yn fethiant uchelgais o'r fath, a gyda bywydau mewn perygl, dylid ei dynnu oddi ar y bwrdd ar unwaith'. Mae'r llythyr hefyd yn annog cais personol bod ystyriaeth yn cael ei roi i'r opsiynau a gyflwynwyd gan Undeb y Brigadau Tân.

Derbyniwyd 24 e-bost yn ystod y cyfnod ymgynghori gan drigolion a pherchnogion busnes yn Abersoch yn gwrthwynebu cau Gorsaf Dân Abersoch, gydag un e-bost yn gwrthwynebu cau gorsaf dân Llanberis.

6.3.8 Wrecsam

Cyflwynodd Cyngor Wrecsam ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. Maent yn nodi'r cyfraniad sylweddol y mae gwasanaethau awdurdodau lleol yn ei wneud i atal a lleihau risg ac yn trafod sut y 'bydd cynnydd yn yr ardoll a osodir ar awdurdodau lleol gan ATAGC yn arwain at lai o arian ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau awdurdod lleol hanfodol' ac y 'dylai ATAGC felly ystyried y risg y gellir ei chyflwyno i wasanaethau ataliol drwy

gynyddu'r ardoll ar awdurdodau lleol ar adeg o straen ariannol parhaus'. Mae Cyngor Wrecsam yn pryderu bod pob un o'r tri opsiwn a gyflwynwyd gan yr ymgynghoriad yn golygu cynnydd sylweddol yn yr ardoll a godir ar awdurdodau lleol ochr yn ochr â gostyngiad mewn lefelau gwasanaeth, ac nid yw'n credu bod y naill opsiwn na'r llall yn dangos gwerth am arian nac yn diwallu anghenion y cymunedau. Er eu bod yn croesawu ymrwymiad i wella trefniadau darpariaeth brys mewn rhai rhannau o'r rhanbarth (y de a'r gorllewin), 'nid ydynt yn credu y dylai hyn fod ar draul gwasanaethau darpariaeth brys hanfodol a ddarperir yn y dwyrain ar hyn o bryd'. Maen nhw felly'n galw ar yr Awdurdod Tân i gynnal y lefelau presennol o ddarpariaeth brys o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mynegodd Cyngor Wrecsam bryderon sylfaenol hefyd am y ffordd y caiff ATAGC ei ariannu. Wrth gydnabod bod y mater hwn y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad presennol ac nad yw o fewn rheolaeth uniongyrchol ATAGC, mae'r cyngor o'r farn ei bod yn annheg rhoi'r grym i ATAGC bennu lefel cyfraniadau awdurdodau lleol ar adeg pan fo awdurdodau lleol yn profi cynnydd pwysau ar y Setliad Llywodraeth Leol'. Hoffai'r cyngor weld 'model praesept treth gyngor tebyg i'r heddlu, fel y'i cymhwysir i'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr, gan y byddai hwn yn ffordd decach a mwy tryloyw o ariannu, gan roi gwell dealltwriaeth i aelodau o gost gwasanaethau Tân ac Achub'. Mae'r cyngor yn awgrymu 'y byddai'n briodol i ATAGC lobbïo'r Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru am adolygiad o'r model ariannu presennol, gan ganolbwyntio ar fod yn agored ac yn dryloyw'.

Mynegodd Cyngor Wrecsam bryder hefyd bod 'yr adolygiad wedi'i ysgogi gan yr angen i arbed arian oherwydd y diffyg cyllid, ac felly, cwmpas cul yr adolygiad, sy'n anwybyddu gwasanaethau corfforaethol, rheoli, cymorth, a'r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf sy'n effeithio ar gostau refeniw blynyddol, yn ddiffygiol gan nad yw'n ystyried y potensial ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn y meysydd hyn'. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch gyflawnadwyedd yr opsiynau o ran newidiadau i'r gweithlu o ran eu Telerau ac Amodau a'u lleoliad.

Derbyniwyd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Stuart Millington lythyr oddi wrth Dave Sheridan, Clerc Cyngor Cymuned Gwersyllt, yn gwrthwynebu'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y diffoddwyr tân llawn amser yn Wrecsam a chynigion i gael gwared ar ei ail injan dân llawn amser. Mae aelodau Cyngor Cymuned Gwersyllt yn galw ar yr Awdurdod Tân i gynnal lefelau cyfredol o ddarpariaeth brys yn Wrecsam, gyda'r holl Aelodau etholedig yn nodi bod lleihau nifer y diffoddwyr tân rheng flaen yn Wrecsam yn gwbl annerbyniol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Cameron Gynnig i'w glywed yn y Cyfarfod arbennig Cyngor Cymunedol Parc Caia gafodd ei gynnal ar y 17eg Awst 2023. Roedd y cynnig a gyflwynwyd yn darllen 'Mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnig 3 opsiwn fel ffordd o leihau costau, 2 yn ymwneud â thorri'r 2il beiriant tân yn Wrecsam a lleihau nifer y diffoddwyr tân o 52 i 28. Mae Cyngor Cymuned Parc Caia yn credu y byddai hyn yn peryglu diogelwch ei ddinasyddion, dim yn unig ym Mharc Caia ond Wrecsam i gyd.

Mae hyn yn gwbl annerbyniol o ystyried bod gan Wrecsam boblogaeth o tua 136,000 gydag o bosib yr Ystâd Ddiwydiannol fwyaf yn Ewrop, Ysbyty Maelor Wrecsam, Coleg Cambria yn y dref a hefyd y coleg hyfforddi gweithgynhyrchu ar Ffordd y Bers, yn ogystal ag un o'r carchardai mwyaf yn y DU. Mae Cyngor Cymuned Parc Caia yn cymryd diogelwch ei drigolion ym Mharc Caia a Wrecsam o ddifrif, ac yn dweud bod cynigion i dorri gwasanaethau yn Wrecsam yn annerbyniol ac yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau, o bosibl o frig yr Awdurdod.' Cytunwyd yn unfrydol yn y cyfarfod bod y cynigion presennol gan Awdurdod Tân y Gogledd Orllewin yn annerbyniol oherwydd yr effeithiau posibl ar ddiogelwch dinasyddion Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynigion yn llwyr; bod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynigion yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Tân; ei fod yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau; bod manylion y cynnig a'r penderfyniad canlyniadol yn cael eu cyfleu i holl Gynghorau Cymuned Wrecsam.

Codwyd yr un cynnig (a nodir uchod yng Nghyngor Cymuned Parc Caia) yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Wledig Llangollen ar 5 Medi. Penderfynwyd yn unfrydol eto yn y cyfarfod bod Cyngor Cymuned Llangollen yn teimlo 'bod y cynigion presennol gan Awdurdod Tân y Gogledd Orllewin yn annerbyniol i'r effeithiau posibl ar ddiogelwch dinasyddion Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynigion yn llwyr; bod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynigion yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Tân; ei fod yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau.'

Bu Cyngor Cymuned Gwaunysterfyn yn ystyried y wybodaeth ymgynghori a'r cynigion a gynhwyswyd yn yr Adolygiad o Ddarpariaeth Brys mewn cyfarfod ym mis Medi 2023, ochr yn ochr â gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyngor Cymuned Parc Caia am ei ymateb i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae Cyngor Cymuned Gwaunysterfyn yn 'cytuno'n llwyr â'r datganiadau sefyllfa a wnaed gan Gyngor Cymuned Parc Caia' ac yn cefnogi eu penderfyniad unfrydol 'bod cynigion presennol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn annerbyniol i'r effeithiau posibl ar ddiogelwch dinasyddion Bwrdeistref Sirol Wrecsam ac mae'r Cyngor yn llwyr wrthwynebu'r cynigion; bod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynigion yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Tân; a'i fod yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau'.

Yn dilyn derbyn e-bost oddi wrth Gyngor Cymuned Parc Caia, cynigiodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Y Mwynglawdd ac eiliodd Cynghorydd fod penderfyniad union yr un fath, wedi'i addasu i gefnogi trigolion ward Y Mwynglawdd, yn cael ei basio a'i anfon ymlaen gan y Clerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Cytunwyd ar y cynnig gan bawb a oedd yn bresennol a dywedwyd bod 'Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cynnig 3 opsiwn ar gyfer lleihau costau, 2 yn ymwneud â thorri'r 2il beiriant tân yn Wrecsam a lleihau nifer y diffoddwyr tân o 52 i 28. Mae Cyngor Cymuned Y Mwynglawdd yn credu y byddai hyn yn rhoi diogelwch ei dinasyddion mewn perygl, nid yn unig yng nghymunedau'r Mwynglawdd ond Wrecsam gyfan. Mae hyn yn gwbl annerbyniol o ystyried bod gan Wrecsam boblogaeth o tua 136,000 ac o bosibl yr Ystâd Ddiwydiannol fwyaf yn Ewrop, Ysbyty Wrecsam Maelor, Prifysgol a Choleg Cambria yn y dref yn ogystal â'r coleg hyfforddi gweithgynhyrchu ar Ffordd y Bers, ynghyd ag un o'r carchardai mwyaf yn y DU. Mae Cyngor Cymuned Y Mwynglawdd yn cymryd diogelwch ei drigolion yn Y Mwynglawdd a Wrecsam o ddifrif ac yn haeru bod cynigion i dorri gwasanaethau yn Wrecsam yn annerbyniol, ac yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau, o bosibl o frig yr Awdurdod, i gyflawni arbedion ariannol'. Penderfynwyd yn unfrydol eto yn y cyfarfod bod Cyngor Cymuned Y Mwynglawdd yn cytuno 'bod cynigion presennol Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn annerbyniol i'r effeithiau posibl ar ddiogelwch dinasyddion Bwrdeistref Sirol Wrecsam a bod y Cyngor yn gwrthwynebu'r cynigion yn llwyr; bod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cynigion yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Tân; ei fod yn galw ar yr Awdurdod Tân i edrych ar opsiynau eraill o arbed costau.' Ochr yn ochr â'u cyflwyniad, manteisiodd Cyngor Cymuned Y Mwynglawdd ar y cyfle i ailddatgan eu bod, ac y byddant bob amser, yn gwbl ymrwymedig i'ch gwasanaeth (GTAGC) ac yn ei gefnogi, ond yn bendant yn sefyll wrth ein cyd-aelodau Cyngor Cymuned ym Mharc Caia a thu hwnt wrth wrthwynebu cynigion sy'n rhoi poblogaeth y Fwrdeistref Sirol mewn mwy o berygl yn gyfnewid am arbedion cost'.

Derbyniwyd llythyr gan Sarah Atherton AS, Wrecsam, yn gwrthwynebu gwaredu trydydd peiriant Wrecsam. Trafodwyd Wrecsam fel dinas sy'n tyfu ac roedd cael un peiriant wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant wrth gefn wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar alwad yn cael ei ystyried yn 'annerbyniol ar gyfer ardal yr un maint â Wrecsam'. Trafodwyd yr angen i Lywodraeth Cymru 'gamu i fyny' a darparu'r cyllid angenrheidiol ynghyd â materion yn ymwneud â Gogledd Cymru yn cael ei 'tan ariannu' a'i thrin fel 'ôl-ystyriaeth'. Cyfeiriwyd eto at gyllid ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd yn Llanelwy. Er y gwelwyd bod angen hyn, gwelwyd bod amseriad, maint a graddfa'r prosiect yn peri pryder. Cododd y llythyr hefyd problemau a wynebwyd wrth gael mynediad i'r ymgynghoriad a'i gwblhau, gan gyfeirio at strwythur ac arddull yr holiadur.

Yn dilyn gohebiaeth sylweddol gan drigolion pryderus, lansiodd Sarah Atherton AS ddeiseb i wrthwynebu cynlluniau i gael gwared ar drydydd peiriant Wrecsam.

Derbyniwyd deiseb gan y Cynghorydd Carrie Harper, trwy'r Cynghorydd Marc Jones, Plaid Cymru, Grosvenor, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae'r ddeiseb yn 'gwrthwynebiad i dorri ail injan dân amser cyflawn Wrecsam a chynnal gwasanaeth brys yn yr ardal' ac mae'n cynnwys 734 o lofnodion.

Derbyniwyd e-bost gan y Cynghorydd Graham Rogers, Cynghorydd Sir Ward Hermitage a Chynghorydd Cymuned Offa, yn datgan ei 'alwad ar Awdurdod Tân I gynnal ei lefelau o ddarpariaeth o fewn Bwrdeistref Sirol Wrecsam.' Derbyniwyd pedwar e-bost pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori gan gynghorwyr, trigolion a chynrychiolwyr o Wrecsam yn gwrthwynebu/cwestiynu manylion ynghylch newidiadau i ddarpariaeth yn Wrecsam.

Cynhaliwyd rali a drefnwyd gan Undeb y Frigâd Dân yn Wrecsam ar 30 Medi am 12pm, gyda mwy na 100 o brotestwyr yn protestio yn erbyn y cynlluniau yn yr Adolygiad Darpariaeth Brys.

**Y LLE AWN
YR AMSER AWN
Y SGILIAU AWN**
EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB CHI



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



**Adolygiad Darpariaeth Brys
Crynodeb
Dweud eich dweud**

21 Gorffennaf 2023 – 22 Medi 2023

**ATAL AMDDIFFYD YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING**

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

Cyflwyniad

Rydyn ni eisiau darparu'r gwasanaeth tecaf posib i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

Waeth ble rydych chi'n byw neu pwy ydych chi, ein nod ydy bod yno i chi pan fydd arnoch ein hangen ni.

Mae hyn yn golygu gallu darparu'r un gwasanaeth ar draws ein cymunedau amrywiol – amrywiol o ran lleoliad a daearyddiaeth, o ran y mathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n ymateb iddynt, a hefyd o ran y bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, beth bynnag fo'ch ethnigrwydd, rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol neu anabledd.

Rydyn ni'n anelu at gyflawni hyn drwy reoli ein hadnoddau, ein cyllideb a'n pobl mor effeithiol â phosib.

Mae deall eich barn chi a barn pawb sy'n byw, gweithio a theithio yn ein rhanbarth yn allweddol i hyn.

Mae cadw cydbwysedd rhwng hyn a'r rhwystrau presennol i ddarparu gwasanaethau yn allweddol hefyd – yn enwedig o ystyried bod argaeledd ein diffoddwyr tân ar-alwad neu ran amser wedi gostwng, bod y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau yn newid gyda'r newid yn yr hinsawdd, a'r heriau ariannol yn fwy nag erioed.

Ac nid dim ond ymateb i ddigwyddiadau sy'n bwysig – byddai eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf yn well o lawer i bawb dan sylw.

Nid yn unig mae ein gwaith atal yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel ond mae hefyd yn golygu y gallwn reoli'r ffordd rydyn ni'n gweithio yn well. I gymunedau fel y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig, mae'n ffordd hanfodol o amddiffyn ein trigolion.



Dawn Docx Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr



Dylan Rees Cadeirydd yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol

Sut rydyn ni'n gweithredu ar hyn o bryd

Crëwyd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ym 1996, fodd bynnag, mae'r model ar gyfer darpariaeth frys a'r lleoliadau a'r trefniadau ar gyfer criwio ein 44 gorsaf dân wedi aros heb eu newid ryw lawer ers y cyfnod wedi'r rhyfel.


Mae Gogledd Cymru fel rhanbarth wedi parhau i esblygu ac felly hefyd y risgiau sy'n wynebu'r cyhoedd. Yn 2008 yn ogystal â bod yn wasanaeth ymateb, fe wnaethom osod ein hunain fel gwasanaeth ataliol. Ers hynny, rydyn ni wedi gweithio'n galed i ostwng nifer y tanau, yn ogystal â'r marwolaethau a'r anafiadau sy'n digwydd o ganlyniad.

Roedd y flwyddyn 2022/23 yn garreg filltir bwysig i ni – am y tro cyntaf ers i ni ddechrau cadw cofnod, ni fu unrhyw farwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru.

Mae hyn yn newyddion gwych, ond rhaid i ni beidio â llaesu dwylo. Mae'n rhaid i ni weithio'n galetach byth i gynnal y lefel hon o ddiogelwch.



Pam rydyn ni'n ymgynghori?



Yr heriau sydd o'n blaenau

Yn y cyfamser, mae risgiau eraill wedi dod i'r amlwg gyda newid yn yr hinsawdd yn cynyddu pa mor aml a difrifol ydy'r achosion o danau yn yr awyr agored a llifogydd.

Mae datblygiadau newydd o ran technoleg fel paneli solar a cherbydau trydan, a dulliau newydd o adeiladu ag deunyddiau adeiladu newydd, yn peri risgiau newydd i'r cyhoedd ac i ddiffoddwyr tân.

A ninnau wedi dechrau cefnogi cydweithwyr eraill yn y sector brys, rydyn ni wedi gweld cynnydd yn yr hyn a elwir yn alwadau gwasanaeth arbennig.

O ganlyniad, rydyn ni'n dod yn fwy o Wasanaeth Achub nag yn Wasanaeth Tân ac Achub. I wneud hyn i gyd, byddai angen i ni fod **yn y lle iawn**.


Ar hyn o bryd, dim ond mewn wyth o'n gorsafoedd tân wedi'u lleoli'n bennaf ar hyd coridor ffordd ddeuol yr A55 yn ein rhanbarth y mae gennym ddarpariaeth frys wedi'i gwarantu.

Mewn manau eraill yng Ngogledd Cymru, rydyn ni'n dibynnu ar ddiffoddwyr tân rhan amser neu ar-alwad (sy'n gweithredu'r system dyletswydd rhan amser) – ac mae'n anodd sicrhau bod y rhain ar gael yn ystod y dydd. (tudalen 7)

Rydyn ni'n gweithio'n galed i recriwtio a chadw'r diffoddwyr tân hyn ond mae angen i ni sicrhau y gallwn ddarparu criw ymateb o fewn yr amser ymateb gorau posib ym mhob rhan o Ogledd Cymru.

Rydyn ni felly wedi bod yn archwilio senarios ar gyfer darparu darpariaeth frys yn y dyfodol – gyda'r bwriad o wella'r ddarpariaeth bresennol tra hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol presennol. Gan weithio gydag arbenigwyr annibynnol, rydyn ni wedi bod yn modelu'n union sut y gallem wneud y gorau o'n hadnoddau ac ymateb yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon.

Gwyddom fod nifer y digwyddiadau rydyn ni'n mynd iddynt yn cynyddu trwy gydol y dydd, gan gyrraedd uchafbwynt yn gynnar gyda'r nos ac yna gostwng yn y nos. Gallem felly edrych ar gyfateb y galw hwn trwy newid y ffordd y mae rhai o'n criwiau'n gweithio mewn rhai ardaloedd.



Digwyddiadau fesul awr ar gyfartaledd 01/04/2017 – 31/03/2022

Er y gallwn weithio i wella sut y gallai ein darpariaeth a pherfformiad ar gyfartaledd edrych, bydd ardaloedd o hyd, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, lle byddem yn parhau i weithio'n galetach i wella ein gwasanaethau amddiffyn ac atal a pharhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff ar alw a'u hargaeledd.

Byddai hyn yn ein galluogi i ymateb yn fwy effeithiol i'r holl argyfyngau y cawn ein galw i fynd atynt, gan gynnwys gwrthdrawiadau ar y ffordd a digwyddiadau o ganlyniad i dywydd eithafol, ac yn hollbwysig, **ar yr amser iawn.**

Ynghyd â'r risgiau newydd, mae'r dechnoleg y mae diffoddwyr tân yn ei defnyddio wedi dod yn fwy soffistigedig.

Felly, mae sicrhau fod gan ein pobl **y sgiliau cywir** yn hollbwysig, ac oherwydd bod nifer y tanau wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf diolch i'n gwaith atal, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol bod hyfforddiant realistig a throchol yn cael ei roi ym mhob un o'r argyfyngau rydyn ni'n debygol o fynd atynt.

O ble mae ein harian yn dod?

Rydyn ni wedi ymrwmo i sicrhau gwerth am arian ar draws yr holl wasanaethau a ddarparwn gyda chyllid a godir gan y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru:

Mae ein Hawdurdod Tân ac Achub yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol ac mae ganddo'r pŵer i godi ardoll ar y Dreth Gyngor ar gyfer cyllid.

Bob blwyddyn, mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn talu cyfraniad i gronfa gwasanaeth tân cyfun sy'n cyfateb i'w gyfran o dreuliau ein Hawdurdod Tân.

Ein cyllideb bresennol ar gyfer 2023/24 yw £44.4 miliwn – sy'n cyfateb i £63.07 y flwyddyn y pen o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, neu £150.66 y flwyddyn fesul cartref.

Mae gwybodaeth am gost pob opsiwn yr ymgynghorir yn ei gylch wedi'i chynnwys yn y tabl ar dudalennau 14-15.

Beth yw ein patrymau shifft presennol?

- Mae ein diffoddwyr tân ar ddyletswydd rhan amser neu ar-alwad (rhan amser) wedi'u lleoli'n bennaf mewn gorsafoedd tân gwledig ar draws ein rhanbarth. Mae gofyn iddyn nhw fod o fewn pum munud o'u gorsaf dân ac yn cario hysbyswr i allu ymateb i argyfyngau a mynychu nosweithiau ymarfer unwaith yr wythnos ar gyfer sesiynau hyfforddi a dyletswyddau eraill a drefnwyd ymlaen llaw.
- Mae ein diffoddwyr tân criw dydd yn ddiffoddwyr tân llawn amser wedi'u lleoli ym Mae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Chaerdybi. Mae'r system shifft criw dydd yn ei gwneud yn ofynnol i'n criwiau weithio cyfuniad o oriau yn yr orsaf yn ystod y dydd ac ar-alwad o leoliad sylfaenol dros nos, i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae ein diffoddwyr tân amser cyflawn neu amser llawn wedi'u lleoli yn Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae criwiau yn y gorsafoedd hyn yn gweithio shifftiau o'r orsaf gyda'r nos ac yn ystod y dydd i ddarparu ymateb 24 awr. Mae yna hefyd ddiffoddwyr tân ar-alwad yn y gorsafoedd tân hyn.
- Mae diffoddwyr tân gwledig amser cyflawn hefyd yn gweithio'n llawn amser ac yn gweithio shifftiau dydd 12 awr dros y rhanbarth ar sail ddeinamig yn dibynnu ar yr angen.

Datblygu ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu'r ffordd orau o ddarparu ein darpariaeth frys yn y dyfodol, gan sicrhau y gallwn fod **yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau cywir**.

Yn seiliedig ar ein gwaith modelu ac ar ein profiad proffesiynol ein hunain, rydym ni wedi archwilio nifer o wahanol senarios a thrwy gyfres o weithgareddau â rhanddeiliaid cyn-ymgyngori rydym ni wedi edrych ar yr union beth oedd yn bwysig i'w ystyried wrth wella ein gwasanaethau darpariaeth frys.

Datblygwyd ein hopsiynau ar gyfer y dyfodol ar sail y meini prawf canlynol:

- **Darpariaeth frys** - sut mae ein peiriannau tân yn ymateb i alwadau brys.
- **Gwasanaethau amddiffyn ac atal** - sut rydym ni'n cadw eich cartrefi a'ch busnesau'n ddiogel.
- **Fforddiadwyedd** - cadw ein gwasanaethau mor fforddiadwy â phosib, gan ddarparu'r gwerth gorau am arian.
- **Gweithlu** - effaith newidiadau ar ein timau.
- **Gwasanaeth teg a chyfartal** - staff sydd yn y lle iawn, ar yr amser iawn, gyda'r sgiliau iawn.
- **Gwerth cymdeithasol** - cydnabod effaith unrhyw newidiadau ar ein cymunedau.

Roedd y themâu allweddol a gododd o'r ymgysylltu hwn yn cynnwys:

- **Cyllid** - Deall y pwysau cyllidebol. A yw'r adolygiad o'r ddarpariaeth frys yn cael ei lywio gan ystyriaethau ariannol?
- **Risgiau yn y dyfodol** - Gall newid yn yr hinsawdd a thechnoleg newydd roi mwy o alw ar adnoddau.
- **Atal ac amddiffyn** - Sut mae ein hymgyssylltiad efo'r cyhoedd a busnesau wedi ei heffeithio.
- **Cyfathrebu** - Allweddol i helpu dealltwriaeth o'r heriau a wynebir ac effeithiau unrhyw gynigion.

Gallwch ddarganfod mwy am yr hyn oedd gan ein rhanddeiliaid i'w ddweud ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru lle gallwch hefyd weld ein Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cadarnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Pa opsiynau ydych chi'n ymgynghori yn eu cylch: beth maen nhw'n ei olygu i'n cymunedau a'n staff?

Dewiswyd tri opsiwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ac mae gan y rhain oblygiadau gwahanol ar gyfer helpu i sicrhau y gallwn fod yno i chi **yn y lle iawn, ar yr amser iawn a gyda'r sgiliau cywir.**

Opsiwn 1

- Cynnal model ymateb 24 awr yn ein gorsafoedd amser cyflawn presennol, gyda gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd criw dydd.
- Ychwanegu tair gorsaf dân staff dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau, gan adleoli diffoddwyr tân amser cyflawn yn dilyn newidiadau yn y Rhyl, Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig.

Opsiwn 2

- Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.
- Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.
- Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu tair gorsaf staff dydd, wedi'u lleoli yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 22 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn.

Opsiwn 3

- Model ymateb lle mae gorsafoedd tân y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn newid i system dyletswydd staff dydd.
- Cael gwared ar drydydd peiriant tân Wrecsam, gan gadw un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân amser cyflawn ac un peiriant tân wedi'i staffio gan ddiffoddwyr tân ar-alwad.
- Yn sgil adleoli staff o orsafoedd tân Wrecsam, y Rhyl a Glannau Dyfrdwy a'r System Dyletswydd Amser Cyflawn Wledig, gallwn ychwanegu dwy orsaf staff dydd, wedi'u lleoli ym Mhorthmadog a Dolgellau a chael gostyngiad o 36 yn nifer y diffoddwyr tân amser cyflawn.
- Cau pum gorsaf dân ar-alwad yn Abersoch, Biwmares, Cerrigydrudion, Conwy a Llanberis, gan arwain at ostyngiad o 38 yn nifer y diffoddwyr tân ar-alwad.




Beth fyddai'r effaith ar ein hymateb brys?

Edrychwyd ar y tebygolrwydd ar gyfartaledd y bydd lleoliad yn derbyn ymateb o fewn 20 munud yn ystod y dydd ar gyfer yr holl opsiynau gwahanol dan ystyriaeth – er mwyn gallu cymharu ein hymateb brys.


Gwyddom fod argaeledd staff ar-alwad yn heriol yn ystod y dydd, ond yn fwy cadarn gyda'r nos sy'n glod i ymroddiad ein staff.

Felly i ddangos y gwahaniaethau rhwng yr opsiynau yn y ffordd orau, mae'r mapiau ar y dudalen nesaf yn dangos argaeledd amser cyflawn 100% yn biws, ac argaeledd aralwad mewn tonau llwyd amrywiol ar sail yr argaeledd cyfartalog (dros dair blynedd).


Trefniadau presennol




Opsiwn 2



Opsiwn 1



Opsiwn 3



Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r opsiynau. Mae gwybodaeth fanylach am sut y datblygwyd yr opsiynau a beth maen nhw'n ei olygu ar gael ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

	Opsiw 1	Opsiw 2	Opsiw 3
Newidiadau i Orsafoedd a/neu Systemau Dyletswydd	Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Griwio Dydd ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig	Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig	Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy yn symud i Staffio Dydd, chael gwared ar 3ydd peiriant tân Wrecsam ac adleoli staff y System Ddyletswydd Wledig
Gorsafoedd Amser Cyflawn wedi'u Cyflwyno	Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau	Staffio Dydd yng Nghorwen, Porthmadog a Dolgellau	Staffio Dydd ym Mhorthmadog a Dolgellau
Cau Gorsafoedd	Dim	Dim	Abersoch, Biwmares, Llanberis, Cerrigydrudion a Chonwy
Niferoedd Staff Amser Cyflawn	Dim Newid	22 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn Gostyngiad o 12%	36 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn Gostyngiad o 19%
Niferoedd Staff Ar-Alwad	Dim Newid	Dim Newid	38 yn llai o Ddiffoddwyr Tân Ar-Alwad Gostyngiad o 8%
Canran y cartrefi yng Ngogledd Cymru sy'n derbyn ymateb laf o fewn 20 munud	Wedi cynyddu i 92.7%	Wedi cynyddu i 92.2%	Wedi gostwng i 91.5%
Y gwahaniaeth rhwng y model ymateb presennol	2,148 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud	321 yn fwy o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud	2,087 yn llai o gartrefi yn derbyn ymateb o fewn 20 munud
Newid o ran Gweithgareddau Atal ac Amddiffyn fesul blwyddyn	Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol. Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig.	Cynnal 1,740 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol. Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig.	Cynnal 1,160 o archwiliadau diogel ac iach ychwanegol. Mwy o ymgysylltu â diwydiant a busnes mewn ardaloedd gwledig.
Gwerth Cymdeithasol	Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd	Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn ardaloedd gwledig e.e. ymweliadau ysgol, ymgyrchoedd diogelwch, digwyddiadau partneriaeth. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Sir Ddinbych a Gwynedd	Llai o ymgysylltiad cymunedol a llai o gyfleoedd swyddi yn y 5 ardal lle byddai gorsafoedd ar-alwad yn cael eu cau. Mwy o botensial ar gyfer cyfleoedd swyddi amser cyflawn yn y dyfodol yn Ne Gwynedd
Amcangyfrif o'r gost fesul cartref y flwyddyn	£171.02	£167.29	£162.88
Y gwahaniaeth rhwng cost 23/24 fesul cartref y flwyddyn	Cynnydd o £20.36	Cynnydd o £16.63	Cynnydd o £12.22

newid negyddol

newid positif

Sut i ymateb

Mae eich barn yn bwysig i ni a hoffem glywed gennych cyn i ni wneud unrhyw benderfyniadau am ddyfodol ein gwasanaethau.

Cymerwch olwg ar y wybodaeth fanylach ar ein gwefan www.tangogleddcymru.llyw.cymru i ddarganfod mwy am ein hopsiynau arfaethedig.

Gallwch rannu eich barn efo ni hyd at hanner nos ddydd Gwener 22 Medi 2023.



I roi gwybod i ni beth yw eich barn, gallwch chi:

Dychwelwch holiadur papur wedi'i lenwi yn ôl atom yn rhad ac am ddim i: **Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW.**

Llenwch yr holiadur ar-lein yn www.tangogleddcymru.llyw.cymru.

Sganiwch y cod QR hwn a fydd yn mynd â chi'n syth at ein holiadur ar-lein.



Gallwch hefyd fynd i un o'n digwyddiadau ymgynghori, neu gyfarfodydd rhithiol, sy'n cael eu cynnal i gasglu adborth - manylion pellach ar ein gwefan: www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Os na allwch gwblhau'r holiadur:

Anfonwch e-bost at: Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru neu lythyr at: **Freepost ADOLYGIAD TAN/FIRE REVIEW**

Neu ffoniwch / tecstiwch i rannu eich barn ar 07787 578 386.

Mae ein gwefan yn cynnig gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn darparu bar offer cynorthwyol hawdd ei ddefnyddio fel y gallwch ddarllen a deall popeth yn y ffyrdd a'r ieithoedd sy'n gweithio orau i chi. Gallwch hefyd wneud cais am fformat hawdd ei ddarllen o'r wybodaeth drwy anfon e-bost atom yn Adolygiaddarpariaethbrys@tangogleddcymru.llyw.cymru, neu ein ffonio / tecstio ar 07787 578 386.



Beth sy'n digwydd nesaf?

Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau eto a byddwn yn parhau i fod â meddwl agored am yr ateb gorau nes bydd yr holl adborth, tystiolaeth a gwybodaeth wedi'u casglu a'u hystyried.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben ddydd Gwener 22 Medi, bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried yr adborth, ynghyd ag ystod eang o wybodaeth a thystiolaeth arall, cyn penderfynu sut i symud ymlaen.

Bydd cyfarfod penderfynu terfynol yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei recordio a bydd ar gael ar ein gwefan:

www.tangogleddcymru.llyw.cymru

Ar ôl i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud, byddai unrhyw newidiadau i'n gwasanaeth brys yn digwydd fesul cam, fel rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024/28.

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE

**RIGHT PLACE
RIGHT TIME
RIGHT SKILLS**





YDYCH CHI'N PROFI'CH LARYMAU MWG BOB WYTHNOS?

Profi'ch larymau mwg bob wythnos ydi'r ffordd orau o wneud yn siwr y gallwch ddianc o'ch eiddo cyn gynted â phosib mewn achos o dân.

Fe all hefyd leihau'r difrod i'ch cartref a'ch eiddo trwy'ch galluogi i alw'r gwasanaeth tân ac achub ar unwaith.

Fe allwn anfon neges atoch ar e-bost i'ch atgoffa i brofi'ch larymau bob wythnos.

Anfonwch eich cyfeiriad e-bost i:

cyfathrebu@tangogleddcymru.llyw.cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub

Adolygiad Darpariaeth Frys

Eich Gwasanaeth Tan ac Achub Chi – amser iawn, lle iawn, sgiliau iawn

Adroddiad yr Ymgynghoriad

Atodiad 2 – Enghreifftiau o Ddeunyddiau Cyfathrebu

Enghreifftiau o ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yr Ymgynghoriad

YOUR FIRE AND RESCUE SERVICE

RIGHT PLACE RIGHT TIME RIGHT SKILLS



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Emergency Cover Review - Have your say 21 July 2023 – 22 September 2023

North Wales Fire and Rescue Authority is running a public consultation to gather feedback from those who live, work and travel in the region about the future of how we provide our emergency cover in North Wales.

Our questionnaire is available on our website www.northwalesfire.gov.wales where you can also find all the information you need in order to respond to the questions.

Emergency cover is the way we manage our resources to keep people safe - no matter where you live or who you are, we aim to be there for you when you need us.

Your views are important to us - we want to know what you think about our options for providing emergency cover before we make any final decisions about the future of our services.

Between 21 July 2023 and 22 September 2023, you can tell us what you think by completing our questionnaire.



Our questionnaire is available on our website www.northwalesfire.gov.wales where you can also find all the information you need in order to respond to the questions.

Scan here to go straight to the questionnaire.



There are several different ways you can get involved to tell us what you think.

